

19-09-B00 Agenda	2
19-09-B02A Cofnodion Cyhoeddus mis Gorffennaf 2019	4
19-09-B02B Cofnod Gweithredu Cyhoeddus	13
19-09-B11 Ymagwedd Addysg	15
19-09-B12 SoNaRR2	24
19-09-B12-A1 Atodiad 1	30
19-09-B13 Rhaglen Cwsmeriaid	34
19-09-B14 Is-ddeddfau Pysgodfeydd	41
19-09-B14-A1 Annex 1 EQIA	49
19-09-B15 Adroddiad Perfformiad 2019-20	57
19-09-B15-A1 Atodiad 1 2019-20 Dangosfwrdd Cynllun Busnes	68
19-09-B16 Y Môr ac Ynni Morol	124
19-09-B16-A1 Atodiad 1 Ardal forol Cymru ar y glannau ac ar y môr	134
19-09-B16-A2 Atodiad 2 Cylch gwaith morol Cyfoeth Naturiol Cymru	135
19-09-B16-A3 Atodiad 3	137
19-09-B16-A4 Atodiad 4 Egwyddorion cyngor morol Cyfoeth Naturiol Cymru	139
19-09-B16-A5 Atodiad 5 Ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru	140

Teitl y Cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Diwrnod 2 (Sesiwn Gyhoeddus)

Dyddiad y Cyfarfod:	19 Medi 2019	Lleoliad: Gwesty Crug Glas, ger Tyddewi, SA62 6XX
Amser y Cyfarfod:	09.00	
Amser:	Pwnc	
09.00 (5 munud)	1. Agor y Cyfarfod • Croeso • Ymddiheuriadau • Datganiad o Fuddiannau Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)	
09.05 (15 munud)	2. Adolygu cofnodion cyhoeddus cyfarfod mis Gorffennaf, ynghyd â'r Cofnod Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyhoeddus mis Gorffennaf 2019 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)	
09.20 (30 munud)	3. Diweddariad ar Brexit – Cyflwyniad y unig Noddwyr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De Cyflwynydd: Sarah Williams, Rheolwr Integreiddio Adnoddau Naturiol a Llesiant	
09.50 (30 munud)	4. Ymagwedd Addysg Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Cyflwynydd: Sue Williams, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Addysg a Dysgu Gydol Oes Papur: 19-09-B11	
10.20 (10 munud)	Egwyl	

10.30 (20 munud)	5. Diweddariad ar SoNaRR Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Cyflwynydd: Julie Boswell, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, y Tîm Adrodd Amgylcheddol Papur: 19-09-B12
10.50 (20 munud)	6. Diweddariad ar Wasanaethau Cwsmeriaid Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Cyflwynydd: Amanda Paton, Arbenigwr, Trawsnewid Gwasanaethau Cwsmeriaid Papur: 19-09-B13
11.10 (20 munud)	7. Cymeradwyo is-ddeddfau Pysgota Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Cyflwynydd: Peter Gough, Prif Ymgynghorydd Pysgodfeydd Papur: 19-09-B14
11.30 (30 munud)	8. Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol 2019-20 Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu Cyflwynydd: Sue Ginley, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad Papur: 19-09-B15
12.00 (50 munud)	9. Y Môr ac Ynni Morol Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Cyflwynydd: Mary Lewis, Arweinydd Tîm Papur: 19-09-B16
12.50	Diwedd y Cyfarfod
13.15	Cinio

Cofnodion Bwrdd heb eu cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyhoeddus
Lleoliad:	
Dyddiad y Cyfarfod:	Dydd Iau 11 Gorffennaf 2019
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:	Sir David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Julia Cherrett Geraint Davies Yn Athro Steve Ormerod Zoe Henderson Karen Balmer Catherine Brown Elizabeth Haywood Yr Athro Peter Rigby Chris Blake Dr Rosie Plummer
Y Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:	Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Llywodraethu
Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:	Tracey Mayes, Prif Weithredwr Rheolwr Busnes Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol – eitemau 4 a 6 Bronia Bendall, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol – eitem 4 Rob Bell, Pennaeth Cyllid – eitem 6 Martyn Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru – eitem 7 Lyn Williams, Swydd Bontio – eitem 3 Clive Walmsley, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol: Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio – eitem 8 Rhian Jardine, Pennaeth y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygiad a'r Gwasanaeth Morol – eitem 7

Ysgrifenyddiaeth: Jenn Jones
Beth Jones

1. Croeso, Ymddiheuriadau a Datganiad o Fuddiannau

- 1.1 Croeso – Croesawodd y Cadeirydd holl aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.
- 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer yr aelod Bwrdd Howard C Davies
- 1.3 Datganiad o Fuddiant: Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant

2. Adolygu cofnodion cyfarfod cyhoeddus mis Mawrth, ynghyd â'r Cofnod Gweithredu

- 2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.
- 2.2 Ystyriwyd y camau gweithredu a nodwyd yn y cofnod gweithredu.

3. Adroddiad ar y Gymraeg

Ymunodd Lyn Williams (swydd bontio) â'r cyfarfod.

- 3.1 Mae gan CNC ddyletswydd statudol i gyhoeddi Adroddiad y Gymraeg sy'n manylu ar y modd y mae CNC wedi bodloni Safonau'r Gymraeg, ynghyd â'r modd y mae'n datblygu fel sefydliad dwyieithog.
- 3.2 Nodwyd bod 90% o'r staff yn y sefydliad yn gallu deall neu siarad ychydig o Gymraeg ar y pryd, a bod chwarter y staff yn gallu siarad yr iaith y rhugl. Mae cynllun dysgu Cymraeg CNC wedi bod ar waith ers pum mlynedd, a nodwyd bod 85% o'r staff sydd wedi dysgu'r iaith yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 3.3 Mae CNC 'nawr yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, bu llai o gŵynion i Swyddfa'r Comisiynydd, a gwahoddir unrhyw achwynwyr i gyflwyno unrhyw bryderon yn uniongyrchol i CNC i gael eu hystyried.
- 3.4 O ran datblygu'r Gymraeg, mae angen i CNC ystyried ei rôl wrth gyflawni targedau LIC a nodir yn Strategaeth y Gymraeg 2050 i sicrhau miliwn o siaradwyr sy'n defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.
- 3.5 Yn dilyn Cynllun y Sefydliad, mae'n bwysig mapio sgiliau'r Gymraeg a nodi bylchau, a hynny er mwyn sicrhau bod yna aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob tîm, a bod dysgwyr Cymraeg yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i ddatblygu.
- 3.6 Nododd y Bwrdd yr angen i adrodd yn ôl y 2020 o ran y newidiadau a wnaed. Mae angen i CNC fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwasanaeth dwyieithog a ddarperir, yn enwedig o ran y llinell llifogydd. O gymharu â sefydliadau eraill, nodwyd bod CNC yn cael ei ystyried ymhlith y goreuon o ran cynnig gwasanaeth dwyieithog.

NODWYD: Nododd y Bwrdd yr adroddiad rhagorol ac ymrwymiad y staff i gyflawni.

CYMERADWYBYD: Cymeradwyodd y Bwrdd y dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn mis Medi 2019.

4. Perfformiad Corfforaethol

- 4.1 Nododd y Prif Weithredwr yr adroddiad perfformiad terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Roedd y perfformiad wedi cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ac roedd sawl mesur coch wedi bod yn destun craffu manwl gan y Bwrdd ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y darlun yn un cymysg yn gyffredinol, gyda rhai meysydd perfformio rhagorol, ond cydnabuwyd bod yna feysydd lle roedd angen gwella'r perfformiad. Ymrwymodd y Tîm Gweithredol i barhau i ganolbwyntio ar wella'r perfformiad cyffredinol.
- 4.2 Nodwyd bod y Fframwaith Perfformiad ar gyfer 2019-20 wedi cael ei gadarnhau gan y Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2019; dylai CNC fod yn uchelgeisiol a gosod targedau uchel.
- 4.3 Nododd y Bwrdd effaith Cynllun y Sefydliad ar ddarpariaeth, a gofynnodd a oedd hyn yn fwy amlwg mewn rhai meysydd o'r busnes. Nododd y Prif Weithredwr fod Cynllun y Sefydliad wedi effeithio ar ddarpariaeth y canlyniadau rhagamcanol ledled y sefydliad, ond bod effaith yr ymchwiliad annisgwyl i'r Is-ddeddfau Pysgodfeydd ac adroddiad Grant Thornton yn amlwg iawn. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gydnerthedd y sefydliad a'r angen am i'r Tîm Gweithredol fynd i'r afael yn well â materion annisgwyl, gan ddefnyddio sgiliau a staff ledled y sefydliad. Bydd datblygu sefydliadol yn ystyried y broses o drosglwyddo sgiliau a'r angen am i well cynllunio fynd i'r afael â materion annisgwyl yn y dyfodol a allai effeithio ar berfformiad. Gwelwyd hyn yn ddiweddar o ran Trwyddedu Cyffredinol, lle bu'r broses o weithio ledled y sefydliadau a chyda rhanddeiliaid allanol allweddol yn llwyddiannus.
- 4.4 Cyfeiriodd y Bwrdd at y mesur coch ynghylch iechyd coed a phlanhigion, ynghyd â'r angen am newid yn y ffordd o fesur hyn er mwyn adlewyrchu safonau LIC. Nododd y Prif Weithredwr fod y clefyd yn symud yn gynt na'r disgwyl, a bod y targed blaenorol yn afrealistig, ac felly wedi cael ei ddiwygio a'i adolygu. Mae CNC yn rhan o grŵp sector cyfan sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, ac sy'n ystyried sut beth y dylai'r polisi fod mewn perthynas â'r clefyd, a fydd yn ein harwain ac yn ein llywio i gymryd camau. Mae'r grŵp sector cyfan hwn wedi adolygu a phennu fframwaith y polisi ar gyfer LIC.
- 4.5 Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Cynllunio Cyllid a Pherfformiad wedi ystyried fformat yr adroddiad, ynghyd â'r broses o gipio canlyniadau a fesurir; fodd bynnag, mae angen i'r busnes ystyried cyflawniadau sylweddol eraill sydd y tu allan i'r targedau a bennwyd, a sicrhau eu bod yn cael eu nodi a'u dathlu, a bod y staff yn ymwybodol eu bod yn cael eu cydnabod.
- 4.6 Diolchodd y Prif Weithredwr i'r holl staff dan sylw, a dywedodd fod y Bwrdd wedi nodi ymdrechion yr holl staff ledled y sefydliad o ran bodloni'r targedau hyn o dan amgylchiadau anodd cynllun y sefydliad.
-

5. Strategaeth Iechyd a Lles

Ymunodd Bronia Bendall (Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol ar gyfer Iechyd a Lles) a Ruth Jenkins (Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol) â'r cyfarfod.

- 5.1 Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu mai nod y strategaeth hon yw bod iechyd a lles yn cael eu hadlewyrchu ar draws pob polisi yn y sefydliad. Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i flaenoriaethu'r hyn yr ydym yn ei wneud i sicrhau hynny, ac i ddylanwadu ar aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ystyried yr amgylchedd yn ei holl bolisiau.
- 5.2 Mae'r agenda ar gyfer gweithredu a nodir yn y strategaeth yn nodi'r modd y mae CNC yn ymgorffori iechyd ym mhob polisi, swyddogaeth a darpariaeth ar gyfer ein gweithwyr. Enillodd CNC wobwr Arian ar gyfer Safonau Iechyd Corfforaethol eleni. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol ac mae gennym femorandwm cyd-ddealltwriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond mae angen i ni gyflawni'r her i ddarparu'n lleol, gan sicrhau ein bod yn cyfleu hyn i'r cyhoedd. Nodwyd bod gan CNC ddyletswydd i ymgymryd ag asesiad o'r effaith ar iechyd yn 2020.
- 5.3 Dyma Strategaeth Iechyd a Lles gyntaf CNC, ac mae'n strategaeth fyrdymor tan 2022, sy'n cyd-fynd â'n cynllun corfforaethol cyfredol. Mae hyn yn rhoi cyfle i CNC ddatblygu fersiwn fwy hirdymor a pharhau i gynnal sgysiau â phartneriaid allanol.
- 5.4 Y camau nesaf:
 - Datblygu cynllun gwaith i'w gyflawni.
 - Parhau i ddatblygu ein cylch gorchwyl, sydd eisoes yn cael effaith ar iechyd y cyhoedd.
 - Cynnwys yr amgylchedd yn ein holl bolisiau iechyd fel ein bod yn arwain trwy esiampl.
 - Adeiladu'r atebion ymarferol.
 - Canolbwyntio ar fersiwn nesaf y strategaeth.
- 5.5 Nododd y Bwrdd y pwysau ar y gwasanaeth iechyd a'r diffyg cyfleoedd i feddwl mewn modd strategol, ac roedd ganddo ddiddordeb mewn nodi pa ymatebion a ddaw gan y Byrddau Iechyd. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De, fod yr agenda iechyd cyhoeddus yn aml yn ystyried atal, yn ei farn ef; felly, bydd angen i CNC barhau i archwilio a datblygu'r modd yr ydym yn cael dylanwad strategol, ac ystyried pa gymorth y gallwn ei gynnig i gyd-weithwyr ym maes iechyd ac i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 5.6 Nododd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru fod yna wahaniaethau i'w nodi ledled Cymru o ran y modd y mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda CNC o ran atal ym maes iechyd a phrosiectau cysylltiedig; mae rhwydweithio a chydweithio yn allweddol, ac mae secondiadau yn cael eu hystyried i wella hyn. Rhoddwyd enghreifftiau o brosiectau partneriaeth yn y maes, lle mae CNC yn gweithio gydag ymddiriedolaethau meddygon teulu, ysgolion lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a pharc cenedlaethol i gyflawni canlyniadau ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig. Nododd y Bwrdd fod angen ystyried meysydd blaenoriaeth er

mwyn cyflawni i'r eithaf.

- 5.7 Cododd y Bwrdd yr angen i arddangos a chofnodi'r hyn y mae CNC wedi'i gyflawni, ynghyd â'r mesurau a ystyriwyd i werthuso hyn. Nododd yr Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol ar gyfer lechyd a Lles fod dangosyddion perfformiad wedi cael eu hystyried ond, gan y bydd yr effaith yn amlwg ledled y sefydliad, fod angen trafodaeth bellach â chyd-weithwyr. Nodwyd hefyd fod angen datblygu rhagor o ddangosyddion ar gyfer y tîm lechyd a Lles. Roedd trafodaethau wedi cael eu cynnal yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn datblygu mesurau cyffredin i gofnodi cyflawniadau ar y cyd.
- 5.8 Nodwyd bod rhaglenni o fentrau awyr agored ar gyfer plant yn parhau ledled amrywiaeth eang o sefydliadau; mae cysylltu addysg â'r amgylchedd a dysgu yn yr awyr agored yn allweddol, a dylid archwilio a datblygu gwaith partneriaeth ymhellach. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol ar gyfer lechyd a Lles fod gwaith yn mynd rhagddo yn hyn o beth, gyda'r strwythur newydd yn gwella'r adnodd sydd ar gael.
- 5.9 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y seilwaith ym maes lechyd y Cyhoedd, ynghyd â'r angen am i CNC ystyried dulliau mwy radical o ran y modd y mae'n ymdrin â'r berthynas rhwng lechyd y Cyhoedd a'r amgylchedd, ac, o bosibl, iddo fod yn fwy rhagweithiol.
- 5.10 Pwysleisiodd y Bwrdd y gofyniad i ganolbwyntio rhagor ar iechyd meddwl, ynghyd â'r cyfle i ymgymryd â gwaith integreiddio i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a chysylltu â gwaith Cyfeillion Dementia. Nodwyd hefyd y gwaith a oedd yn mynd rhagddo ledled y trydydd sector, ynghyd â'r angen am i CNC sicrhau bod pawb yn y cymunedau yn gallu rhyngweithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau.
- 5.11 Nododd y Prif Weithredwr fod ein prosiectau mwyaf llwyddiannus wedi bod mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mai'r her rhwng 'nawr a 2022 fydd gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni rhagor ledled sector yr amgylchedd. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol ar gyfer lechyd a Lles fod hyn yn cael ei ystyried o dan femoranda cyd-ddealltwriaeth.

6. Strategaeth Grantiau

Ymunodd Rob Bell (Pennaeth Cyllid) â'r cyfarfod.

- 6.1 Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod y mecanwaith grantiau newydd wedi cael ei gadarnhau yn y cyfarfod Bwrdd ym mis Mai 2019 ac, ers hynny, fod aelodau'r Bwrdd a'r staff wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o ystyried a datblygu fframwaith y strategaeth gyffredinol hon.
- 6.2 Manylodd y Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol ar y rhesymau pam y mae'n bwysig sicrhau pecyn a rhaglen grantiau, ynghyd â'r modd y cafodd y gweithdrefnau a'r polisi eu datblygu er mwyn hwyluso'r ffordd yr ydym yn gweithio gydag eraill trwy ein rhaglen cyllid grant. Mae'r canlyniadau wedi cael eu hystyried yn unol â'r cynllun corfforaethol, y cynllun busnes a chynlluniau sy'n seiliedig ar leoliad. Mae'r adborth gan y rhanddeiliaid wedi cael ei ystyried. Yn arbennig, mae'r trydydd sector wedi pwysleisio nad yw'n barod am gronfa gystadleuol arall, ac roedd yn falch o weld y

mecanweithiau a oedd wedi eu rhoi ar waith. Bydd y rhaglen hon yn galluogi'r staff i fod yn llawer mwy ystwyth o ran y ffordd y maent yn defnyddio eu cyllidebau i weithio gydag eraill, ac i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

- 6.3 Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod yna gyfle i'r staff ddefnyddio cyllidebau rhaglenni/prosiectau eraill, er bod yna gyllideb ddynodedig.
- 6.4 Nododd y Bwrdd yr angen i sicrhau fod y broses fonitro yn cael ei phwysleisio fel y gallwn sicrhau y cyflawnir y gwerth mwyaf am arian. Cadarnhaodd y Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol fod y mecanwaith ar gyfer monitro'r ddarpariaeth yn cael ei ddatblygu, gan ystyried faint o risg y mae CNC yn barod i ymgymryd â hi mewn perthynas â'r ffyrdd newydd hyn o weithio, y prosiectau a phartneriaid newydd. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cytuno ar y canlyniadau a fesurir â'r partner/ymgeisydd; fodd bynnag, nodwyd ei bod yn fater o drefn fod y rheiny y cynigir cyfleoedd grant iddynt yn cyflwyno ffurflen adroddiad.
- 6.5 Gofynnodd y Bwrdd sut y bydd partneriaid strategol yn cael eu nodi a pha un a fyddent yn newid wrth i'r blaenoriaethau newid. Cadarnhaodd y Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol y bydd angen bod yn ystwyth, ond na fydd hon yn broses flynyddol. Bydd hyn, o bosibl, yn gyfle i weithio gyda rhai partneriaid strategol y mae'r berthynas rhyngddynt a CNC wedi arafu a dioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- 6.6 Nododd y Cadeirydd yr angen am gyhoeddusrwydd ac i gynnal lansiad o'r rhaglen pan fydd yr holl waith paratoi wedi'i gwblhau.

CAM GWEITHREDU: Ystyried cynnal lansiad o'r Strategaeth Grantiau er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffyrdd newydd o weithio pan fydd y rhaglen a'r prosesau wedi'u cwblhau.

7. Diweddariad ar y Datganiadau Ardal

Ymunodd Martyn Evans (Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru) a Rhian Jardine (Pennaeth y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygiad a Gwasanaeth Morol) â'r cyfarfod.

- 7.1 Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De y dylem ein hatgoffa ein hunain mai'r Datganiadau Ardal, y mae CNC ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar eu cyflawni, yw ail gynnyrch arwyddocaol Deddf yr Amgylchedd, ac mai'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol oedd y cyntaf. Bwrdd y Datganiadau Ardal yw darparu sail dystiolaeth allweddol i lywio rownd nesaf y Cynlluniau Lles yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 7.2 Amlygodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru y ffaith bod hyn yn ddiweddariad cenedlaethol gan y saith ardal; gan amlygu'r risgiau a'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni, a phennu mesurau'r dangosfwrdd, a fydd yn ffocws i'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni ar gyfer y flwyddyn. Bydd mesurau'r dangosfwrdd yn cofnodi'r canlynol:
 - Sesiynau ymgysylltu sydd wedi'u hamserlennu tan fis Medi 2019
 - Ystyried opsiynau
 - Ystyried opsiynau o ran ymyrraeth.

- 7.3 Mae'r broses wedi cynnwys gweithio gyda'r Tîm Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu ac ymgysylltu â thimau mewnol ledled y sefydliad. Mae hwn yn gysyniad newydd i bawb yn fewnol, ond rydym 'nawr yn gallu ymgynghori'n allanol, gan ymgysylltu trwy ddefnyddio tystiolaeth sydd wedi deillio o amcanion LIC, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp Cyfeillion Beirniadol, sydd wedi darparu adborth. Mae'r ymagwedd ledled Cymru yr un fath, fel y mae'r canlyniadau; bydd neges ac ymagwedd gyson yn cael eu mabwysiadu, ond gan bob amser ystyried y gwahaniaeth o ran 'lle.' Nodwyd bod ystadegau sy'n ymwneud â rhyngweithiadau ar y We yn amlygu diddordeb o bob cwr o'r Deyrnas Unedig.
- 7.4 Cyfeiriodd y Bwrdd at ymatebion y rhanddeiliaid, yn ogystal ag at rywfaifaint o sinigiaeth mewn rhai ardaloedd, ynghyd ag ychydig o ddifaterwch ynghylch yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, nododd Pennaeth Gweithrediadau'r De-orllewin na chafwyd unrhyw negyddoldeb yn adborth y swyddogion, a bod dull mapio cyfranogiad wedi cael ei ddefnyddio wrth raglennu'r achosion o rhyngweithio â rhanddeiliaid.
- 7.5 O ran y seithfed maes, Y Môr, nododd Pennaeth y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygiad a Gwasanaeth Morol fod yna ymgysylltiad ag is-grŵp ymgynghori yn LIC, a bod sgysiaau â grwpiau bach eraill ar y gweill i ystyried themâu newydd. Nodwyd na fyddai CNC yn gyfrifol am yr holl bethau i'w cyflawni na'r holl gamau gweithredu ledled y saith maes.
- 7.6 Bydd yr ymgysylltu a ddigwyddodd rhwng misoedd Mai a Medi yn cael ei adolygu ledled pob maes. Nodwyd y themâu newydd canlynol:
- rheoli tir mewn modd cynaliadwy,
 - dirywiad bioamrywiaeth,
 - newid yn yr hinsawdd,
 - gwella iechyd.
- Fodd bynnag, nodwyd bod themâu ychydig yn wahanol yn ymddangos mewn rhai ardaloedd.
- 7.7 Ychwanegodd Roger Cooper, Cadeirydd y Panel Cyngori ar Strategaeth Coetir Llywodraeth Cymru, fod LIC wedi gosod targed mawr o ran creu coedwig newydd yn rhan o'i rhaglen datgarboneiddio. Dylai Datganiadau Ardal nodi ardaloedd â blaenoriaeth lle gellid creu coetir; fodd bynnag, mae yna broblem o ran y sector coedwigaeth yn nodi ac yn cael caniatâd trwy CNC i blannu coedwigoedd newydd. Nododd y byddai'r sector coedwigaeth yn awyddus i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y datganiadau ardal.
- 7.8 Cadarnhaodd y Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol fod CNC wedi bod yn defnyddio offer mapio i ddarparu gwybodaeth i'w hystyried mewn ymgynghoriadau ar Ddatganiadau Ardal.

CAM GWEITHREDU 1: Adolygu cynnydd y datganiadau ardal ymhellach yng nghyfarfod Bwrdd mis Tachwedd – gan roi rhagor o ystyriaeth i themâu newydd.

CAM GWEITHREDU 2: Dosbarthu rhestr o gyfleoedd i'r Bwrdd gymryd rhan yng ngweddill y digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymwneud â Datganiadau Ardal – Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru

CAM GWEITHREDU 3: Dosbarth rhestr o Themâu Newydd pob un o'r saith Datganiad Ardal – Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru

8. Newid yn yr Hinsawdd

Ymunodd Clive Walmsley (Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio) â'r cyfarfod.

- 8.1 Roedd cyflwyniad wedi cael ei roi yn ddiweddar i'r Prif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar ymateb CNC i Argyfwng Newid Hinsawdd LIC. Yn unol â chais y Bwrdd ym mis Gorffennaf, lluniwyd rhestr o ddeg ymyrraeth bosibl, y bydd angen eu blaenoriaethu gyda chefnogaeth y Bwrdd. Yna, bydd angen symud ymlaen i ystyried amserlennu, cost a pha un a ydynt o fewn cylch gwaith CNC yn gyfan gwbl.
- 8.2 Nododd yr Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol ar gyfer Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio mai diweddariad interim yw hwn; mae'r gwaith yn mynd rhagddo o ran dwyn meysydd y sefydliad ynghyd i drafod. Er mwyn cyrraedd y pwynt hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith a wnaed gennym eisoes ar brosiectau Carbon Bositif, i argymhellion Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar Newid Hinsawdd, ac i'r Rhaglen Cyflenwi Carbon Isel a gyhoeddwyd ym mis Mawrth gan LIC.
- 8.3 Mae'r deg ymateb i'w hystyried fel a ganlyn:
 - Adfer mawn dwfn
 - Creu coetir
 - Cynhyrchu ynni adnewyddadwy
 - Seilwaith a cherbydau EV
 - Gwres ac ynni carbon isel mewn adeiladau ac asedau
 - Allyriadau sy'n gysylltiedig â chaffael
 - Dylanwadu ar leihau allyriadau allanol ledled Cymru, a hynny yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
 - Cynllunio gwasanaeth/rôl y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio Datblygiad a rôl reoleiddiol CNC – archwilio'n fewnol a chyda LIC
 - Gweithio i ddylanwadu ar newid yn ymddygiad a diwylliant y staff a'r cyhoedd, o ran datgarboneiddio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd
 - Gwerthuso a chyfathrebu effeithiau cyfredol newid yn yr hinsawdd yng Nghymru er mwyn ysgogi trafodaeth bellach.
- 8.4 Roedd y Bwrdd yn falch o weld y sylw a'r ffocws a roddwyd i'r argyfwng. Amlygwyd canlyniad mynd i'r afael â rhai o'r elfennau a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar faterion eraill, ynghyd â rôl bosibl y broses grantiau o ran datblygu camau gweithredu gyda rhanddeiliaid. Roedd LIC wedi cael cais am ei mewnbwn, a bydd copi o'r cyflwyniad hwn yn cael ei anfon at y Prif Weinidog a'r Gweinidog.
- 8.5 Nododd y Bwrdd effeithiau ariannol cyflawni'r deg ymateb a restrir, a gofynnodd a oedd yna arwydd y byddai LIC yn darparu cymorth a chyllid ychwanegol. Nododd y Prif Weithredwr fod sgysiau cyfredol â LIC yn ymwneud â £4 miliwn ar gyfer Adfer Corsydd Mawn yn unig.

- 8.6 O ran creu coetir, ychwanegodd Roger Cooper, Cadeirydd y Panel Cyngori ar Strategaeth Coetir Llywodraeth Cymru, ei bod yn ymddangos nad oes cyllid ar y ffordd i greu coetir ar ystad CNC, ac mai sicrhau mynediad at freindaliadau ffermydd gwynt yw'r unig ffordd ymlaen, o bosibl. Mae'n ymddangos mai ar dir fferm y mae'r cyfle; mae darparu'r tir a pherswadio ffermwyr i greu coetir yn allweddol. Ac yntau'n ymddiriedolwr ar gyfer Coed Cymru, nododd ei fod yn ymwybodol o argaeledd 2,000 hectar o goetir fferm arfaethedig, ond bod angen rhoi sylw i'r cyllid a'r system gymeradwyo. Mae chwalu rhai o'r rhwystrau sy'n bodoli rhag greu coetir ar dir fferm yn allweddol. Mae angen ychwanegu at y matrices fod cynhyrchu pren yn fantais luosog allweddol i gynyddu'r ystad coetir, ynghyd â'r cyfle i gloi carbon y tu hwnt i'r broses o gynaeafu'r coed mewn cynhyrchion pren.

9. UNRHYW FATER ARALL

- 9.1 Darparwyd diweddariad ar Gyfeillion Dementia:
- Dirprwywyd y penderfyniad i fabwysiadu cynllun mwy uchelgeisiol i'r Byrddau Busnes; pwysleisiwyd y byddai angen gwneud penderfyniad yn gyflym er mwyn gallu bodloni unrhyw fesurau penodol.
 - Mae cais wedi dod i law gan lechyd Cyhoeddus Cymru am fanylion gweithgareddau CNC ar gyfer colli'r cof.
 - Mae House of Memories yn cael ei ddatblygu, ac mae cyfarfod wedi cael ei gynnal ag Ambiwlans Cymru.

Diwedd y cyfarfodydd

Cyfarfodydd Bwrdd									
Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Para.	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn pryd	Statws	Nodiadau/ Diweddariadau
Cyhoeddus	11/07/2019	6	6.6	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	Ystyried lansio'r Strategaeth Grantiau er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i ffyrdd newydd o weithio pan fydd y rhaglen a'r prosesau wedi'u cwblhau.	Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol.		Parhaus	
Cyhoeddus	11/07/2019	7	7.8	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	CAM GWEITHREDU 1: Adolygu cynnydd y Datganiadau Ardal ymhellach yng nghyfarfod Bwrdd mis Tachwedd – gan roi rhagor o ystyriaeth i themâu newydd.	Martin Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru		Parhaus	
Cyhoeddus	11/07/2019	7	7.8	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	CAM GWEITHREDU 2: Dosbarthu rhestr o gyfleoedd i'r Bwrdd gymryd rhan yng ngweddill y digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymwneud â Datganiadau Ardal – Pennaeth	Martin Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru		Wedi'i gwblhau	

					Gweithrediadau De-orllewin Cymru				
Cyhoeddus	11/07/2019	7	7.8	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	CAM GWEITHREDU 3: Dosbarth rhestr o Themâu Newydd pob un o'r saith Datganiad Ardal – Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru	Martin Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru		Wedi'i gwblhau	

Papur i'r Bwrdd

Teitl y Papur:	Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (CELLS) - Dull gweithredu Addysg CNC
Cyfeirnod y Papur:	Papur 19-09-B11
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies - Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y Papur gan:	Sue Williams - Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi cynnydd ar ddull CNC o ddarparu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol trwy amrywiaeth o fecanweithiau addysg, dysgu a sgiliau, yn dilyn cymeradwyo safbwynt polisi Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (CELLS) ym mis Tachwedd 2018.

Effaith: Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn cynorthwyo CNC i gyflawni egwyddorion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:	Edrych ar y tymor hir: Trwy adeiladu ar y mecanweithiau darparu presennol wrth ddatblygu dulliau newydd ac arloesol, mae polisi <i>CELLS</i> yn caniatáu i CNC gydbwyso anghenion tymor byr a'r gallu i ddiwallu ac addasu ar gyfer anghenion tymor hir. Mabwysiadu dull integredig: Yn ôl union natur y maes polisi hwn, caiff dull integredig a chyfannol ei fabwysiadu. Yn y byd addysg, mae'r term dysgu integredig yn ymgorffori sawl pwnc, sy'n cael eu dysgu ar wahân fel rheol, mewn dull addysgu rhyngddisgyblaethol. Y nod yw helpu dysgwyr o bob oed a gallu i barhau i ymgysylltu ac i ddefnyddio setiau lluosog o sgiliau, profiadau a ffynonellau i gynorthwyo a chyflymu'r broses ddysgu. Mae safbwynt presennol CNC yn cefnogi dysgu integredig ar draws meysydd aml-gwricwlwm (ffurfiol ac anffurfiol) yn ogystal â dull integredig <i>WBFG</i>. Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth: Mae'r maes polisi hwn yn cynnwys gwaith i ddod yn y sefydliad Hawliau Plant, gan ganiatáu inni gynnwys pobl ifanc ledled Cymru yn rhagweithiol yn natblygiad ein polisïau, ein strategaethau a'n cynlluniau. Gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau pobl ifanc, gallwn ddangos ein bod yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol yn ein penderfyniadau gyda golwg ar bolisïau allweddol, er enghraifft paratoi Datganiadau Ardal a'r Weledigaeth hyd at 2050. Gweithio mewn ffordd gydweithredol: Mae dull gweithredu addysg CNC wedi symud i ffwrdd o gyflwyno'n uniongyrchol i
---	--

	ddysgwyr i alluogi a hwyluso eraill, gan weithio ar y cyd gydag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad a'n hallbwn. Atal problemau rhag codi: Mae dysgu yn yr amgylchedd naturiol, o gwmpas yr amgylchedd hwnnw ac ar ei gyfer yn allweddol i bawb allu deall eu rôl wrth reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn helpu i atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Mae polisi CELLS CNC a chamau Dilyniant Naturiol yn sail i'r egwyddor hon.
--	---

Mater

1. Ers penderfyniad Adolygiad Maes Busnes 2016 i *“ganolbwyntio ar ddylanwadu a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar Addysg a Sgiliau - gan gydnabod bod darparwyr eraill mewn gwell sefyllfa i ymgymryd â darparu addysg ffurfiol yn uniongyrchol”*, mae CNC wedi ail-ystyried ei ddull gweithredu yn llwyr mewn perthynas ag addysg a dysgu er mwyn cefnogi cyflwyno rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym wedi ail-lunio ac ehangu dulliau presennol ac wedi datblygu amrywiaeth o fecanweithiau addysg, dysgu a sgiliau newydd.
2. Cymeradwywyd safbwynt polisi Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (CELLS) gan y Tîm Gweithredol ym mis Tachwedd 2018.
3. Er bod llawer o bobl yng Nghymru eisoes yn mwynhau, yn gwerthfawrogi ac yn deall y byd naturiol, daw heriau sylweddol i'r amlwg wrth gysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol. Dylid annog pawb i ddefnyddio a mwynhau'r awyr agored mewn ffordd gyfrifol, a dylai 'dysgu yn, am ac ar gyfer' yr amgylchedd naturiol a'r buddion lluosog y mae ei adnoddau'n eu darparu, fod yn rhan annatod o fywyd pawb. Er mwyn meithrin newid ymddygiad ystyrion mae angen i hyn ddechrau yn ystod plentyndod cynnar.
4. Fel rhan o OD, mae meysydd polisi lechyd ac Addysg wedi cael eu cyfuno i un tîm dan y teitl 'lechyd, Addysg ac Adnoddau Naturiol', sy'n rhan o'r Grŵp Integreiddio Adnoddau Naturiol a Lles. Y weledigaeth ar gyfer y grŵp hwn yw sicrhau, wrth ymgorffori Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, bod buddion ecosystemau iach, gwydn yn cael eu hystyried yn benodol ym mhob un o feysydd gwaith y sefydliad.
5. Nod y papur hwn yw diweddarau'r Bwrdd ar y dull gweithredu ac mae'n tynnu sylw at rai o'r llwyddiannau hyd yma. Ymhelaethir ar lawer o'r rhain yn ystod y cyflwyniad ar 19^{eg} Medi 2019. Lle bo modd, mae dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill wedi'u cynnwys.

Cefndir

6. Mae polisi CELLS yn cadw at ac yn darparu fframwaith ar gyfer yr 'Achos Busnes dros Newid Sefydliadol: Addysg a Sgiliau' dyddiedig 25^{ain} Ebrill 2016, oedd yn nodi y bydd CNC *“yn canolbwyntio ar ddylanwadu a darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar Addysg a Sgiliau - gan gydnabod fod darparwyr eraill mewn gwell sefyllfa i ymgymryd â darparu addysg ffurfiol yn uniongyrchol”*.

7. Yn dilyn proses newid a noddwyd gan Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth, aeth y Gwaith Addysg, Dysgu a Sgiliau presennol trwy broses o newid. Arweiniodd hyn at ddull gweithredu newydd oedd yn symud i ffwrdd o addysg a gyflwynid yn uniongyrchol i bob dysgwr.
8. Crëwyd pedair swydd newydd yn *EPP* â chylch gwaith er mwyn datblygu model gweithredu newydd ar gyfer y sefydliad, oedd yn darparu trosolwg strategol a safbwynt polisi, cyngor ac arweiniad mewnol ac allanol ac yn sefydlu cysylltiadau â Llywodraeth Cymru.
9. Y polisi Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (*CELLS*) oedd allbwn y cam sylweddol cyntaf o waith, ac mae'n darparu safbwynt trosfwaol i CNC a bydd oedran, gallu neu ganllaw pwnc-benodol yn llifo ohono. Bydd yn cefnogi ac yn ategu'r Fframwaith Ymgysylltu Addysg Uwch sy'n manylu ar ein gwaith gyda sefydliadau addysg uwch. Mae'r darn hwn o waith yn adeiladu ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth fydd wedi'i lofnodi gydag ystod o brifysgolion a chaiff ei reoli gan y Rheolwr Tystiolaeth Strategol.

Asesiad

10. Mewn ymgynghoriad â staff ar draws y busnes, nodwyd 8 ffrwd waith wahanol ym mholisi *CELLS*. Manylir ar y rhain ymhellach yn y [polisi](#):
 - Dylanwadu ar eraill
 - Adnoddau, deunyddiau hyfforddi a darparu data neu ddeunydd sy'n briodol i oedran penodol
 - Hwyluso a galluogi ystod o rwydweithiau addysg a dysgu
 - Annog a chefnogi eraill i ddefnyddio tir sy'n eiddo i CNC ac sy'n cael ei reoli ganddo mewn swyddogaeth hunan-arweiniol
 - Rhaglenni hyfforddi ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol, Partneriaid a Rhanddeiliaid
 - Sgiliau a Lleoliadau
 - Ymgysylltu ag Addysg Uwch
 - Fframwaith Ehangach - Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
11. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau a ffrydiau gwaith a ddatblygwyd hyd yma mae:
 - set o ddiffiniadau sydd ar gael i staff ar y fewnwyd. Er hwylustod, gellir dod o hyd i'r rhain yn Atodiad 1.
 - sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda thîm Diwygio Cwricwlwm Llywodraeth Cymru, gan ddylanwadu ar ddysgu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn y dyfodol trwy fewnbwn sylweddol i ymgynghoriad Cwricwlwm Cymru
 - [Camau Dilyniant Naturiol](#) CNC sy'n ceisio helpu pob plentyn yng Nghymru i ddatblygu cysylltiad parhaus, gwybodaeth, dealltwriaeth a rhyngweithiad â natur Gall y Camau Dilyniant Naturiol fod yn berthnasol, ni waeth pa oedran y gall person fod, gan fod dilyniant yn ddibynnol ar brofiad a gellir ei ddefnyddio fel offeryn cyfathrebu yn ogystal ag i helpu penderfynu ar y math gorau o ymyrraeth mewn senario
 - fframwaith o bolisiâu a gweithdrefnau er mwyn cyflawni cynllun lleoli CNC

- datganiad sefyllfa gweithgaredd ar gyfer defnyddio ein tir ein hunain a thir wedi'i reoli ar gyfer ymweliadau hunan-arweiniol fel rhan o gyfres o ddatganiadau yn y system Caniatâd Mynediad
- datblygu sawl partneriaeth strategol i gefnogi rhaglen hyfforddi ledled Cymru gan gynnwys:
 - Techniquist i ddarparu digwyddiadau hyfforddi athrawon pwnc *STEM* (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) fel rhan o raglen gymorth DPP Llywodraeth Cymru.
 - Consortia Addysg Rhanbarthol i hyfforddi Arweinwyr Pwnc
 - Cydlynwyr Ysgol Iach i gefnogi cynnydd mewn dysgu awyr agored ac felly mwy o weithgaredd corfforol

Yn ystod 2019, mae pynciau mor amrywiol â Rheoli Dŵr a'i Ansawdd i lechyd a Lles yn cael eu cyflwyno i dros 500 o athrawon ac addysgwyr gyda'r potensial i gyrraedd hyd at 75000 o ddysgwyr dros y 5 mlynedd nesaf.

- partneriaethau strategol gyda Chymru Ifanc a Ffermwyr Ifanc Cymru er mwyn gallu casglu meddyliau a barn pobl ifanc i lywio polisïau a chynlluniau CNC yn y dyfodol (gan gynnwys ein gwaith Datganiad Ardal). Mae gan y ddau sefydliad fynediad i fforymau a grwpiau ar draws Cymru ac maent wedi hyfforddi staff i ymgysylltu'n uniongyrchol ar amrywiaeth o bynciau.
- mae ymgyrch [Miri Mes](#) yn ennyn diddordeb dysgwyr o bob oed ac mae'n darparu ar draws holl egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r [nodyn briffio](#) cysylltiedig yn egluro sut mae'r ymgyrch yn darparu cyfleoedd dysgu ymarferol ac yn cyfrannu at ddatrys problem yr angen am stoc hadau brodorol.
- mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol trwy CNC a thrwy [Ddysgu Awyr Agored Cymru](#) (OLW) a [Chyngor Dysgu Awyr Agored Cymru](#). Mae Dysgu Awyr Agored Cymru wedi gweld cynnydd o 32% yn yr aelodaeth ac mae dilynwyr *Twitter* bron wedi cyrraedd 1500.
- lansiad [Wythnos Dysgu Awyr Agored](#) gyntaf Cymru ym mis Ebrill 2019. Gellir gweld crynodeb a baratowyd gan y Tîm Cyfathrebu yn Atodiad [2](#) ynghyd â'r ffaith fod adroddiadau'r cyfryngau cymdeithasol am yr ymgyrch wedi cyrraedd 500k o bobl.
- datblygu cyfres o gynadleddau "Dyfodol Llwyddiannus trwy Ddysgu Awyr Agored" sydd wedi cyrraedd dros 500 o gynrychiolwyr hyd yma ac ymgysylltu ag athrawon, addysgwyr annibynnol, staff awdurdodau lleol a chonsortia, a llawer o'n rhanddeiliaid a'n partneriaid presennol er mwyn cefnogi ymhellach eu gwaith addysg. Mae gan 500 o gynrychiolwyr y potensial i ddylanwadu ar dros 70000 o ddysgwyr yn ystod y 5 mlynedd nesaf
- lansio'r ddogfen [Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Uchel](#) ym mis Mehefin 2019.
- cyngor ac arweiniad a ddarperir ar draws y busnes i gefnogi datblygiad:
 - Adnoddau safle-benodol sy'n gysylltiedig â chynlluniau lliniaru llifogydd yn [Llanelwy](#) a [Dolgellau](#)
 - cyfres o adnoddau yn cefnogi [Gronant](#) a [Talacre](#)
 - Gardd synhwyraidd yn Niwbwrch
 - cyfleoedd hyfforddi â chymhorthdal trwy *PSB Wrecsam*
 - Cynigion Bywyd a *HLF* gan gynnwys Twyni Byw, Twyni Dynamig, Gwastadeddau Byw Gwent (gan gynnwys hyfforddiant a datblygu adnoddau), Coedwigoedd Celtaidd, Cyforgorsydd Cymru a Llwybrau Arfordirol

- Cynllun lliniaru llifogydd Llyn Tegid - help gyda gwaith ymgynghori
- Prosiect Betws - datblygu adnoddau addysg i helpu esbonio'r prosiect gwymbo coed eithafol
- Gweithgareddau llwybr cerfluniau Fforest Fawr
- Datblygu cymwysterau a marcio ffeiliau achredu Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Lefel 2 a 3
- Statws Dinas sy'n Gyfeillgar i Blant Caerdydd
- Adnoddau i gefnogi Afonydd Taf a Dyfrdwy

Argymhelliad (Argymelliadau)

12. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y wybodaeth a ddarperir ynghyd â'r dull gweithredu cyfredol ac i dynnu sylw at unrhyw feysydd neu syniadau ar gyfer datblygu neu newid pellach.

Peryglon Allweddol

13. Yn dilyn cymeradwyo polisi *CELLS*, mae'r peryglon allweddol yn y maes gwaith hwn yn fach iawn. Mae CNC wedi cydnabod yr angen i sicrhau ansawdd a chysondeb yr holl gamau gweithredu ac ymyriadau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar draws yr holl swyddogaethau. Mae polisi *CELLS* yn nodi'r ffyrdd newydd o weithio a fydd yn cael eu darparu a'u rheoli gan staff â chymwysterau priodol gyda'r polisiau a'r gweithdrefnau cywir ar waith er mwyn darparu gwasanaeth proffesiynol o ansawdd uchel, lleihau unrhyw risg i'r sefydliad a sicrhau cyrhaeddiad, dylanwad effeithlon ehangach ynghyd â defnyddio adnoddau.
14. Drwy adeiladu ar lwyddiant a chyfle cyfredol, byddai angen i newidiadau i lefel uchelgais gydnabod gallu'r staff naill ai mewn perthynas â'r gwaith a wnawn neu sut rydym yn gweithio ac yn dylanwadu ar eraill.

Y Camau nesaf

15. Tymor Byr (1 i 2 flynedd):
 - Cydgrynhoi ein cynnig allanol gan gynhyrchu taflen strategaeth allanol
 - Tyfu ein gallu i hyfforddi
 - Parhau i ehangu ein tudalennau gwe, gan greu dolenni i rai eraill a defnyddio gwesteiywyr eraill fel Hwb a Dysgu Awyr Agored Cymru
 - Parhau i baratoi adnoddau, yn enwedig adnoddau safle-benodol er mwyn annog mwy o weithgaredd hunan-arweiniol ar y tir sy'n eiddo inni ac sy'n cael ei reoli gennym
 - Cefnogi'r broses o gyflwyno Cwricwlwm Cymru, gan gynnig cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ac addysgwyr ar bob agwedd ar addysg Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a dysgu awyr agored
 - Annog timau ar draws y busnes i gynnal lleoliadau o bob math yn unol â'n gweithdrefn Lleoli
 - Tyfu ein hymgyrchoedd addysg presennol - Campau Mes ac Wythnos Dysgu Awyr Agored Cymru ac ehangu ein calendr gweithgareddau
 - Parhau i egluro sefyllfa CNC yn fewnol a helpu staff i ddatblygu prosiectau a rhaglenni o safon uchel, lleihau unrhyw risg i'r sefydliad a sicrhau cyrhaeddiad, dylanwad a defnydd ehangach, effeithlon o adnoddau.

- Cwblhau ein Dull Gweithredu Hawliau Plant a datblygu ymhellach ein ffordd o weithio gyda phobl ifanc trwy Gymru Ifanc a CFFI trwy ddatblygiad y Datganiad Ardal a gwaith gweledigaeth 2050.

16. Tymor Canol i Hirdymor (3 i 5 mlynedd)

- Tyfu ein partneriaethau rhanddeiliaid
- Ehangu ein safbwyntiau polisi ar chwarae naturiol, hawliau plant ac ati
- Archwilio dulliau gweithredu tebyg i ymgyrchoedd sy'n uno negeseuon cyfathrebiadau a dysgu gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl
- Parhau i ddatblygu'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd naturiol, iechyd a dysgu

Goblygiadau Ariannol

17. Yn y tymor byr, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol dybryd. Fodd bynnag, os yw'r sefydliad am adeiladu ar y llwyddiannau a nodir yn adran 11 yn y tymor canolig ac ehangu arnynt, yn y tymor canolig, bydd angen adnoddau ychwanegol.

Mynegai i'r Atodiad

Atodiad 1 - Diffiniadau

Addysg

Y broses o dderbyn neu roi cyfarwyddyd systematig, yn enwedig mewn sefydliad addysg fel ysgol neu brifysgol.

Addysg yw:

- rhannu a chaffael gwybodaeth trwy addysgu.
- mae'n ymwneud â datblygiad a thwf ac mae'n canolbwyntio ar y dyfodol.
- mae'n cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu i ysgogi meddwl a meithrin dysgu.

Felly gellir disgrifio addysg fel mewnbwn lle mai'r nod troswaol yw rhannu gwybodaeth a fydd yn cynyddu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth.

I'r gwrthwyneb, gellir disgrifio dysgu fel canlyniad. Hynny yw, cynnydd mewn sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ganlyniad, nid yn unig i addysg, ond i weithgareddau anffurfiol, sy'n aml yn cael eu harwain gan yr unigolyn ei hun.

Dysgu

Y broses wybyddol o gaffael sgil neu wybodaeth.

Mae hyn yn cynnwys astudiaethau academiaidd a hyfforddiant galwedigaethol trwy'r ysgol a thu hwnt. Mae hefyd yn cwmpasu datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol plant ym mlynnyddoedd cynharaf eu bywydau.

Mae'n cynnwys gallu cymunedau daearyddol a chymunedau sydd â diddordebau cyffredin i ymateb gyda dealltwriaeth a menter i newidiadau eang sy'n cynrychioli bygythiadau neu gyfleoedd, megis newid yn yr hinsawdd.

Gall dysgu fod yn ganlyniad gweithgareddau o'r fath, gan gynnwys gwirfoddoli, cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol, teithiau cerdded tywysedig, chwarae a datblygu menter.

Dysgu Gydol Oes

Gall dysgu ddigwydd trwy gydol oes. Gellir ei gynnal y tu allan i'r strwythur addysg ffurfiol ac mae'n agored i bob dinesydd waeth beth fo'i gymwysterau. Dyma yw darparu neu ddefnyddio cyfleoedd

dysgu ffurfiol ac anffurfiol trwy gydol oes pobl er mwyn meithrin datblygiad a gwelliant parhaus y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a chyflawniad personol.

Sgiliau

Technegau a gafaelwyd sy'n rhoi'r gallu i rywun wneud rhywbeth yn dda. Mae sgiliau fel arfer yn cael eu caffael neu eu dysgu, o'i gyferbynnu â galluoedd, y credir yn aml eu bod yn gynhenid.

Dysgu Ffurfiol

Mae hwn yn digwydd o fewn perthynas athro/goruchwyliwr-myfyriwr. Gellir achredu Dysgu Ffurfiol, ond nid yw hon yn elfen hanfodol.

Mae dysgu ffurfiol fel arfer yn dilyn cwricwlwm p'un a yw hynny'n gwricwlwm ffurfiol mewn ysgol/ coleg/prifysgol neu'n fframwaith.

Yn nhermau'r cwricwlwm ffurfiol, cydnabyddir y canlynol:

- Cyn-ysgol - yn cwmpasu 0 i 3 blynedd a gall gynnwys cartref, meithrinfa breifat, lleoliadau heb eu cynnal, gwarchodwyr plant, Meithrin, ac ati.
- Cyfnod Sylfaen - cwricwlwm datblygiadol ar gyfer plant tair i saith oed yng Nghymru. Mae'n annog plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus ac i gael hwyl, gan wneud dysgu'n fwy effeithiol.
- Cynradd - yn cynnwys disgyblion sydd wedi cyrraedd neu sy'n agosáu at 5 oed, sef yr oedran dechrau yn yr ysgol, hyd at 11 oed, pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.
- Uwchradd - yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 11 a 16 oed. Yn y cyfnod hwn mae addysg plentyn yn cael ei rannu i ddau brif gyfnod y Cwricwlwm Cenedlaethol: Cyfnod Allweddol 3 a 4.
- Addysg Bellach (AB) - addysg islaw lefel gradd i bobl sy'n hŷn nag oedran ysgol.
- Trydyddol - addysg i bobl dros oedran ysgol, gan gynnwys coleg, prifysgol a chysiau galwedigaethol.
- Addysg uwch (AU) - addysg mewn prifysgolion neu sefydliadau addysgol tebyg, yn enwedig i lefel gradd.

Dysgu Anffurfiol

Nid yw'n dilyn cwricwlwm penodol; mae fel arfer yn digwydd y tu allan i sefydliadau addysgol ac mae'n hunangyfeiriedig. Gall ddigwydd o ganlyniad i weithgaredd a drefnir trwy sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol neu gall fod yn ddigymell.

Fel rheol nid yw dysgu anffurfiol wedi'i achredu ond gall ddilyn fframwaith dysgu sy'n cydnabod cyflawniad e.e. Bathodynau'r Sgowntiaid a'r Geidiaid.

Dysgu Awyr Agored (cyfeirir ato hefyd fel Dysgu Allan o'r Dosbarth)

Wedi'i ddiffinio fel gweithgareddau addysgu a dysgu a gynhelir yn yr amgylchedd naturiol.

Mae hyn yn cynnwys:

- *dysgu mewn* - defnyddio'r amgylchedd naturiol fel ystafell ddosbarth amgen i gyflwyno ystod o bynciau a thestunau.
- *dysgu am* - yn benodol am yr amgylchedd naturiol a'i brosesau. Gall hyn ddigwydd y tu mewn neu tu allan ac mae'n cynnwys pynciau fel rheoli tir, prosesau ecolegol, cadwyni bwyd, ac ati.
- *dysgu ar gyfer* - eiriolaeth dros yr amgylchedd naturiol ac mae'n cynnwys cynaliadwyedd, ADCDF, deall ein heffeithiau ni ein hunain ac eraill ar yr amgylchedd, datblygu safbwynt personol, ac ati.

Mae dysgu awyr agored yn cwmpasu ystod o ddulliau a gweithgareddau ar gyfer pob oedran a gallu.

Mae'r rhain yn cynnwys: chwarae naturiol, addysg amgylcheddol, astudiaethau maes, addysg antur, Ysgol Goedwig ac Ysgol Arfordirol.

Lleoliad yr Addysg

Unrhyw le lle byddai rhywun yn mynd i gael profiad addysgol. Er enghraifft, ysgol gyhoeddus neu ysgol y wladwriaeth, clwb neu raglen ar ôl ysgol, cyfarfod y Sgowntiaid neu'r Geidiaid, ystafell ddosbarth awyr agored, canolfan breswyl/maes.

Gallai'r profiad addysg hwn fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

Cyflwyno Uniongyrchol

Sesiwn yn cael ei chynnal gan arweinydd grŵp ar gyfer dysgwyr naill ai yn yr amgylchedd naturiol neu yn yr ystafell ddosbarth.

Hyfforddi'r Hyfforddwr

Cyflwyno sesiynau hyfforddi i'r rhai a all fynd ymlaen i hyfforddi eraill

Atodiad 2 -Wythnos Dysgu Awyr Agored Cymru 1 - 7 Ebrill 2019

- Lanswyd yr Wythnos 'Dysgu Awyr Agored Cymru' gyntaf erioed gennym ar y cyd â Chyngor Dysgu Awyr Agored Cymru er mwyn dathlu a hyrwyddo buddion lluosog ystafell ddosbarth heb furiau.
- Rhannwyd gweithgareddau awyr agored ymarferol gennym er mwyn rhoi cynnig arnyn nhw gartref neu yn yr ysgol - unrhyw beth o fesur coed mewn mathemateg i astudio twyni tywod mewn daearyddiaeth. Gwneud hobbren adar, creu celf naturiol neu fynd am dro i weld pa anifeiliaid neu blanhigion y gallan nhw eu gweld ar hyd y ffordd.
- Sefydlwyd y #WalesOutdoorLearningWeek / #WythnosDysguAwyrAgored gennym fel y gallai grwpiau addysg ac athrawon rannu eu lluniau dysgu awyr agored ac ysbrydoli eraill.
- Gan mai hon oedd y flwyddyn gyntaf roeddem yn gobeithio cael 100 defnydd o'r hashnod, ond chwalwyd y targed hwn gyda'r hashnod yn cael ei ddefnyddio 500 o weithiau yn ystod yr ymgyrch.
- Cyrhaeddwyd 500k o bobl gan ein cyfryngau cymdeithasol am yr ymgyrch a daeth ein gweithgareddau dysgu awyr agored yn fuan iawn yn rhai o'n prif drawiadau mwyaf poblogaidd ar ein gwefan.
- Cawsom beth llwyddiant yn y papurau hefyd gydag amryw o erthyglau papur newydd, gan gynnwys y *Western Mail*, ond mewn gwirionedd roeddem yn teimlo'n fwyaf cyffrous wrth weld erthyglau gan ysgolion a grwpiau addysg a oedd wedi trefnu digwyddiadau ar gyfer yr ymgyrch - ardystiad trydydd parti penigamp.
- Helpodd Richard Parks i gymeradwyo'r ymgyrch gyda'i flog am ddysgu yn yr awyr agored a mynychodd ein digwyddiad plannu coed Campau Mes, gan gymryd cyfweiliadau gyda'r cyfryngau a chreu adroddiadau i'r cyfryngau cymdeithasol ar ein rhan.
- Gofynasom i athrawon roi gwybod inni pa ddysgu awyr agored roedden nhw wedi'i drefnu, ac adroddwyd gennym fod bron i 2000 o blant wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau - ond credwn fod y ffigur hwn yn llawer uwch yn ôl pob tebyg ac rydym am wella sut rydym yn gwneud hyn y flwyddyn nesaf fel bod pawb yn logio'r hyn maen nhw'n ei wneud.
- Cofnododd y Cyngor Astudiaethau Maes amrywiol ddigwyddiadau gyda bron i 300 o bobl ifanc a 185 o oedolion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu awyr agored - dyna i chi bron 10,000 o oriau dysgwr!

- At hyn, cynhaliwyd digwyddiadau amrywiol gennym ar ein tir, gan gynnwys plannu coed yng Ngogledd Cymru gyda 78 o blant, a chynhadledd dysgu awyr agored 'Creu Dyfodol Llwyddiannus' gyda 127 o gynrychiolwyr.
- Cafwyd bwrlwm enfawr i'r wythnos gyfan a doedden ni bron ddim yn gallu cadw i fyny â'r holl drydariadau a'r straeon am ysgolion a theuluoedd yn mynd allan i'r awyr agored.
- Cafodd ein grŵp rhwydwaith Dysgu Awyr Agored Cymru 125 cais newydd am aelodaeth.
- Gyda phobl ifanc yn ymgyrchu ar faterion amgylcheddol, gobeithiwn y gallwn sicrhau bod hyn oll yn fwy ac yn well eleni.

Laura Morris - Tîm Cyfathrebu

Papur y Bwrdd

Teitl y papur:	Yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2) – Diweddariad a chadarnhad o gyfranogiad y Bwrdd
Cyfeirnod y papur:	Papur 19-09-B12
Noddwyd y papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y papur gan:	Michael Evans, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth

Diben y papur:	Gwybodaeth a thrafodaeth
Argymhellion:	Gofynnir i'r Bwrdd: - Ystyried y cynnydd a wnaed tuag at yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, yn enwedig cynnwys yr adroddiad interim, a chynghori ynghylch unrhyw bryderon. - Mynychu'r cyfarfod ar 23 Hydref i drafod cynnwys yr adroddiad interim a chynghori ar a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol i hwyluso cymeradwyo'r Adroddiad Interim ym mis Tachwedd. - Nodi'r gwaith sy'n cael ei gynnal i liniaru'r risgiau allweddol.

Effaith:	Edrych i'r <u>hirdymor</u>: Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn adroddiad tystiolaeth sy'n llywio Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>: Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn asesu'r dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac, o'r herwydd, mae'n rhaid iddo gyflwyno tystiolaeth mewn modd integredig Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth: Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn adroddiad ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer poblogaeth Cymru Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>: Y nod yw cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod bob cam o'r broses
-----------------	--

	Atal problemau rhag codi: Mae'n rhoi golwg gynnar ar y cynlluniau, gan roi digon o amser i'w hystyried
--	---

Pwnc

1. Diweddaru'r Bwrdd ynghylch cynnydd gyda'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac yn arbennig:
 - Datblygiad yr adroddiad interim, y disgwylir ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2019;
 - Cynnydd o ran nodi dangosyddion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
2. Cytuno ynghylch y cyfleoedd ar gyfer trafod cynnwys yr adroddiad interim cyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Cefndir

3. Diben yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw darparu'r sail dystiolaeth ac asesiad o'r graddau y cyflawnir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n hasesiad o fioamrywiaeth. Mae'r adroddiad yn nodi heriau a chyfleoedd sy'n effeithio ar gyflwr adnoddau naturiol a bylchau mewn gwybodaeth. Mae'n adrodd am lwyddiannau o ran rheoli adnoddau naturiol Cymru er mwyn llywio Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.
4. Disgwylir i'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020.
5. Rhaid i'r adroddiad interim (a elwir yn adroddiad drafft yn y ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol) gael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Diben yr adroddiad interim yw rhoi rhybudd cynnar i Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw newidiadau o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol blaenorol mewn perthynas â'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym o ran heriau a chyfleoedd wrth reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy ac unrhyw fylchau newydd mewn dystiolaeth, a rhoi syniad o olwg a naws yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol nesaf.
6. Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion ynghylch y canllawiau statudol ar gyfer yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.
7. Trafododd y Bwrdd ein cynlluniau ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ym mis Ionawr 2019 a chafodd diweddariad ei gynnwys yn adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2019.
8. Cynhaliwyd sesiwn ar Skype ar gyfer aelodau'r Bwrdd ar 12 Ebrill i drafod diben yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol mewn mwy o fanylder. Gwnaethom edrych dros ganfyddiadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf; esbonio sut y bydd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cael ei drefnu, gan gynnwys ei strwythur arfaethedig; sôn am ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid; a disgrifio'r broses sicrhau ansawdd ac adolygu.

Asesiad

Diweddariad ar gynnydd wrth ddatblygu'r adroddiad interim ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

9. **Newidiadau sy'n dod i'r amlwg o ran yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym ers yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol diwethaf.** Mae'r staff sy'n arwain ar yr asesiadau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi cyflwyno'r rhain fel heriau, cyfleoedd a llwyddiannau newydd. Mewn rhai achosion, fe'u nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol cyntaf, ond mae dystiolaeth ychwanegol wedi newid y pwyslais. Maent yn cael eu blaenoriaethu ar hyn o bryd er mwyn penderfynu pa rai fydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad interim. Nid yw'n syndod fod y themâu sy'n dod i'r amlwg fel blaenoriaeth yn cynnwys:
 - Yr angen i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar draws **pob** ecosystem.
 - Lleihau allyriadau drwy newid o danwyddau ffosil i ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel, a datgarboneiddio trwy blannu coed ac adfer mawndiroedd.
 - Dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth – yn enwedig yr effaith ar rywogaethau estron goresgynnol, a'r risg y bydd planhigion sy'n nodweddiadol o dir â'r helaeth yn diflannu o Gymru.
 - Y cyfle i gynyddu cydnerthedd ecosystemau ar draws yr amgylchedd gwledig drwy'r cynllun ffermio cynaliadwy newydd.
10. **Anghenion dystiolaeth a blaenoriaethu.** Mae anghenion dystiolaeth wedi'u cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer asesiadau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae arweinwyr ar ecosystemau a themâu wedi cadarnhau'r dystiolaeth maent yn bwriadu ei defnyddio yn yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, yn ogystal â thystiolaeth y gallai fod angen ei defnyddio mewn asesiadau yn y dyfodol. Mae hon yn cynnwys:
 - Data ar gyflwr cynefinoedd a rhywogaethau, yn enwedig ar gyfer safleoedd sydd y tu allan i safleoedd gwarchodedig lle nad oes gennym unrhyw ddata o gwbl ar y cyfan a lle mae'r cyflwr yn debygol o fod yn waeth.
 - Data arolwg ynghylch dosbarthiad y rhywogaethau dangosol ar gyfer cynefinoedd trefol.
 - Data dosbarthiad cynhwysfawr ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi lledaenu'n eang.
 - Sefyllfa a thueddiadau presennol priddoedd yng Nghymru a'u bregusrwydd a chydnerthedd mewn perthynas â defnydd tir, rheoli tir, a phatrymau tywydd a hinsawdd sy'n newid.
11. Rydym yn rhannu'r anghenion dystiolaeth hyn gyda'n rhanddeiliaid ar hyn o bryd, gan nodi sut y mae'n debygol y bydd y dystiolaeth honno yn cael ei chyflwyno. Mae bylchau mewn dystiolaeth yn cael eu nodi ac rydym wedi cytuno ar ddull o'u blaenoriaethu a'u llenwi. Byddwn yn rhannu hyn gyda chi cyn y sesiwn Skype ym mis Hydref. Mae themâu yn cynnwys sut mae ecosystemau penodol yn cyfrannu at wasanaethau a llesiant, nodweddiad cydnerthedd ecosystemau, a'r effeithiau newid hinsawdd sy'n dod i'r amlwg.
12. Mae **strwythur yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** wedi'i ystyried a'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar ein gwefan fel cyfres o dudalennau gwe,

gan ddarparu dolenni i'r dystiolaeth a dangosyddion a fydd yn cael eu cyflwyno yn y porth rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym yn gweithio gyda'r tîm cyfathrebu i gynllunio'r tudalennau gwe. Rhannwyd y strwythur a'r dull â chi yn flaenorol.

Datblygu dangosyddion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

13. Diben y dangosyddion yw ein helpu i olrhain a yw Cymru yn symud tua'r cyfeiriad cywir tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd rhywfaint o orgyffwrdd â Dangosyddion Cenedlaethol Cymru ac unrhyw ddangosyddion canlyniad ac allbwn y mae Llywodraeth Cymru yn eu diffinio er mwyn monitro a gwerthuso'r Polisi Adnoddau Naturiol.
14. Mae rhestr arfaethedig o ddangosyddion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'i datblygu a'i rhannu â Llywodraeth Cymru, rhai rhanddeiliaid allanol, a staff. Mae sylwadau cychwynnol wedi'u derbyn yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a Chymdeithas Ddaearegol Prydain. Bydd y cynnig yn cael ei ddiwygio yn unol â'r adborth a dderbynnir. Byddwn yn rhannu hyn gyda chi cyn y sesiwn Skype ym mis Hydref.
15. Bydd y dangosyddion yn cwmpasu:
 - Adnoddau adnewyddadwy ac anadnewyddadwy ac amnewidiadau
 - Cydnerthedd ecosystemau ar draws y pedair nodwedd
 - Darpariaeth gynaliadwy o'r buddion – er enghraifft, dŵr, cynhyrchion morol, pren, bwyd, peillwyr, ynni gynaliadwy, coetir/coedwigaeth gynaliadwy
 - Risg amgylcheddol – er enghraifft, llifogydd, sŵn, aer, nwyon tŷ gwydr, digwyddiadau llygredd, gan gynnwys tipio anghyfreithlon
 - Amgylchedd iach sy'n cefnogi llesiant – er enghraifft, gwaredu â nwyon tŷ gwydr, oeri trefol, dŵr ymdrochi, mynediad, a thirwedd

Cyfleoedd ar gyfer trafod cynnwys yr adroddiad interim cyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd

16. Rydym am sicrhau bod gan y Bwrdd wybodaeth ddigonol i'w alluogi i gymeradwyo cynnwys yr adroddiad interim. Mae cyfarfod Skype wedi'i drefnu ar gyfer 23 Hydref. Bydd cynnwys drafft yr adroddiad interim yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd pythefnos cyn y cyfarfod hwn. Bydd hwn yn cynnwys cynllun ar gyfer cyflwyno'r adroddiad, ond nid proflen o'r adroddiad. Bydd y cyfarfod yn cynnig cyfle i'r Bwrdd drafod y cynnwys a cheisio eglurhad.
17. Bydd cynnwys terfynol yr adroddiad interim yn cael ei gyflwyno cyn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Nid hwn fydd y cynnyrch terfynol gan y bydd y dyluniad terfynol a'r gwaith cyfieithu yn cael eu gwneud unwaith y cytunir ar y cynnwys.
18. Rydym yn croesawu eich adborth ynghylch a yw'r argymhellion hyn yn ddigonol er mwyn galluogi'r Bwrdd i benderfynu ynghylch rhoi cymeradwyaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. A oes unrhyw beth arall y dylem ei roi ar waith?

Argymhellion

19. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y cynnydd a wnaed o ran yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, yn arbennig cynnwys yr adroddiad interim. A oes yna unrhyw bryderon y dylem fynd i'r afael â nhw?
20. Gofynnir i'r Bwrdd fynychu cyfarfod ar 23 Hydref i drafod cynnwys yr adroddiad interim a chynghori ar a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol i hwyluso cymeradwyaeth yr adroddiad interim ym mis Tachwedd.
21. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r gwaith sy'n cael ei gynnal i liniaru'r risgiau allweddol wrth lunio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r adroddiad interim.

Risgiau allweddol

22. Y prif risg yw peidio â chwrdd â'r amserlen statudol ar gyfer darparu'r adroddiad interim i Lywodraeth Cymru. Bydd angen i'r Bwrdd allu cytuno ar gynnwys yr adroddiad interim yng nghyfarfod mis Tachwedd fel y gellir ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019. Bydd angen i'r cyfarfod Skype sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 23 Hydref ddarparu gwybodaeth ddigonol i'r Bwrdd i'w alluogi i gyflawni'r rôl hon.
23. Mae'r gwaith cyffredinol i gyflwyno'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn ddibynnol ar staff allweddol yn blaenoriaethu'r gwaith dros yr 16 mis nesaf. Bydd unrhyw broblemau o ran adnoddau yn cael eu rhannu trwy grŵp llywio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i'r bwrdd busnes priodol er mwyn cael eu datrys a'u huwchgyfeirio i'r Tîm Gweithredol fel y bo angen.
24. Rhoddodd Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 (mis Ebrill i fis Mehefin) statws oren i'r gwaith hwn oherwydd dechrau araf i beth gwaith sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hyn yn derbyn sylw yn ystod Chwarter 2, gyda gweithdai yn cael eu cynnal â rhanddeiliaid allweddol, i'w galluogi i gyfrannu at yr asesiadau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a fydd yn bwydo i mewn i'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.
22. Mae rhai arweinwyr asesu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi symud i rolau newydd o ganlyniad i'r broses Cynllunio'r Sefydliad ac mae rhai aelodau gwahanol o staff yn ymgymryd â'r gwaith erbyn hyn. Mae tîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cefnogi'r aelodau o staff hyn er mwyn eu helpu i ddal i fyny mor gyflym â phosibl. Lle mae capasiti wedi'i nodi fel pryder, mae adnoddau ychwanegol wedi'u sicrhau trwy gynigion pwysau sydd heb eu hariannu, er nad yw'r swyddi wedi'u llenwi eto mewn rhai achosion. Rydym yn hyderus y bydd y gwaith yn ôl ar y trywydd iawn ym mis Medi.

Y camau nesaf

23. Trafodaeth o ran cynnydd a themâu allweddol ar gyfer yr adroddiad interim yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
24. Bydd cynnwys drafft yr adroddiad interim yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd pythefnos cyn y cyfarfod Skype ar 23 Hydref.

25. Bydd cynnwys terfynol yr adroddiad interim yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.
26. Cyn gynted ag y bydd y cynnwys yn cael ei gymeradwyo, byddwn yn gweithio gyda'r tîm cyfathrebu ar gynllun terfynol yr adroddiad a'i gyfieithu a'i fformatio er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno mewn modd hygrych.
27. Bydd yr arweinwyr asesu yn gweithio ar ddrafftiau cyntaf eu hasesiadau ar gyfer yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn ystod tymor yr hydref 2019 a'r bwriad yw cwblhau'r holl asesiadau a drafftio'r testun erbyn mis Mehefin 2020.

Goblygiadau ariannol

28. Mae costau llinell sylfaen ar gyfer datblygu'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r adroddiad interim o fewn cyllidebau tîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Cyfoeth Naturiol Cymru.
29. Mae costau ychwanegol presennol o oddeutu £100,000 wedi'u sicrhau o gynigion pwysau sydd heb eu hariannu.
30. Mae staff ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu amser tuag at yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Efallai y ceir cynigion ychwanegol ar gyfer adnoddau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolir hyn gan dîm yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Nid oes angen cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Nid yw'r gwaith o lywodraethu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn broses sy'n cael effaith ar unigolion neu grwpiau.

Mynegai o atodiadau

Atodiad 1 Darn o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.

Annex 1

Extract from the Welsh Government guidance on Natural Resources Wales' general purpose relating to SoNaRR.

4. State of Natural Resources Report

4.1 Purpose and intent

Section 8 - Duty to prepare and publish state of natural resources report

(1) NRW must prepare and publish reports in accordance with this section containing its assessment of the state of natural resources in relation to Wales.

(2) Each report must, among other things, set out—

(a) NRW's assessment of the extent to which sustainable management of natural resources is being achieved;

(b) NRW's assessment of biodiversity (including the living organisms and types of habitat included in any list published under section 7);

(c) what NRW considers to be the main trends and factors that are affecting, and are likely to affect, the state of natural resources;

(d) any aspects of the state of natural resources about which NRW considers that it does not have sufficient information to make an assessment.

(3) NRW must publish its first report before the end of four months starting with the day this section comes into force.

(4) Subsequently, NRW must publish a report before the end of the calendar year preceding a year in which an ordinary general election is due to be held.

(5) NRW must publish a draft of each report required by subsection (4) before the end of the calendar year preceding the year in which the report must be published.

(6) In this section, "ordinary general election" means the poll held at an ordinary general election under section 3 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

The purpose of the State of Natural Resources Report (SoNaRR) is to:

- Provide a comprehensive and centralised national evidence base on the sustainable management of natural resources in Wales, which is regularly reviewed and updated to reflect current conditions.
- Provide an assessment of the state and trends of natural resources and ecosystems¹, and an assessment of the extent to which SMNR is being achieved.
- Provide a baseline for and to subsequently measure how Wales is progressing in achieving the objective of SMNR.
- Provide evidence to inform the identification of national risks, priorities and opportunities for SMNR.

¹ Ecosystems are functioning systems made up of biodiversity, the supporting environment (air, water, minerals, soil) and the interactions between them.

In doing so, it will

- Ensure that the delivery of the Natural Resources Policy in a local context through an area statement is informed by the appropriate evidence.
- Ensure that the local evidence provided in the preparation of an area statement is captured by future reviews of SoNaRR.
- Make available the information needed for Welsh Ministers to set priorities for contributing towards SMNR at the national level.

4.2 Technical requirements

SoNaRR will provide a national evidence base to include the following

Reporting on current state and trends

Evidence at the national level on the current state and trends of Wales' natural resources, and the resilience of ecosystems and the services they provide including

- Key drivers and pressures that have caused those trends
- Any key uncertainties
- Risks to the resilience of ecosystems and opportunities to manage those risks.
- An understanding of the level of services our ecosystems are currently providing, and the inter-relationships between them. To include areas currently providing high levels of service, areas where service enhancement is possible, areas of opportunity.

Assessment of the extent to which SMNR is being achieved

An assessment of the extent to which sustainable management of natural resources is being achieved, using the following 4 measures:

- Natural resources are not continuously declining and are not being used faster than they can be replenished
- The health and resilience of our ecosystems across the four attributes of ecosystem resilience is not being compromised and where there is an opportunity, is being enhanced
- The supply of different ecosystem services is being optimised (for ecosystem resilience and supply of benefits for well-being).
- The benefits derived from ecosystem services are being fairly and equitably distributed and the contribution they make to well-being is meeting our basic needs and is not declining now or in the long term.

What we want to measure	Why do we want to measure it?
Stocks of natural resources (renewable, and non-renewable) in relation to current, and anticipated future demand	This will enable us to have a reasonable account of the use, and rate of use, of a broad range of renewable natural resources, to determine whether they are likely to be stable, in decline, or used faster than they can replenished, at any point in time. In the case of non-renewable resources, sustainable management requires an equitable distribution of benefits between current and future generations with:

What we want to measure	Why do we want to measure it?
	• A rate of depletion allowing identification of sustainable substitutes once the resource has been exhausted and • The capture of at least some of the current benefits for the benefit of future generations
The attributes of the resilience of ecosystems (including biodiversity)	We want to ensure that our ecosystems retain (and regain) their resilience and capability to deliver the services on which we depend, now and for the future.
The range of services that we are getting from ecosystems	By taking action to build ecosystem resilience, we want to ensure that the supply of ecosystem services is optimised, both for ecosystem resilience and benefits for well-being.
The distribution of ecosystem benefits across the needs of society now and in the future. The contribution of Wales' stocks of natural resources and ecosystem services across the Well-being goals.	We want to ensure that we are providing ecosystems benefits in the most optimal way. This includes • Ensuring there is a fair and equitable distribution of benefits across society so that they are meeting our basic needs • the contribution ecosystem services and stocks of natural resources make across the well-being goals is optimised.

Future scenarios

Evidence at the national level on future changes; key drivers and pressures that could result in future changes to natural resources and ecosystems, including

- How they may affect the future state and resilience of ecosystems and the services they provide
- The key issues/vulnerabilities to be considered,
- A range of plausible scenarios and how the key issues and vulnerabilities may play out in each.

Priorities and opportunities for action at the national level

An assessment of the priorities and opportunities for action to include

- Where action to protect and improve natural resources and ecosystem resilience should be focussed for greatest impact; and why.
- Where action on the distribution of ecosystem services to meet societal needs should be focussed for greatest impact; and why.
- Where action on the contribution of Wales' natural resources and ecosystem services can be taken to maximise their contribution across the Well-being goals.

An assessment of Biodiversity

An assessment of biodiversity (including the living organisms and types of habitat included in any list published under section 7). Biodiversity means the diversity of living organisms,

whether at the genetic, species or ecosystem level, and plays a key role in the functioning of ecosystems.

Outcome indicators for SMNR at a national level

The State of Natural Resources report will provide a set of indicators to measure and monitor progress being made towards the sustainable management of natural resources in Wales, which will support the National Indicator set. In particular these indicators should allow us to assess progress against the 4 measures of SMNR, provide a baseline for and measure progress on how Wales as a nation is moving towards SMNR.

4.3 Draft Report

A draft report is due 12 months prior to each full report to start to inform the Natural Resource Policy. It will

- describe what is emerging as changes in terms of what the evidence is telling us since the last SoNaRR.
- describe newly identified evidence gaps and any update to previously identified evidence gaps; how filling the gaps is being prioritised and include any work being initiated to address them.
- include an update on the look and feel of the next report.

New evidence becoming available during the following 12 months will be included in the final report, along with any recommendations for policy arising from it.

Papur y Bwrdd

Teitl y papur:	Rhaglen Cwsmeriaid – Diweddariad Cynnydd Chwe Mis
Cyfeirnod y papur:	Papur 19-09-B13
Noddwyd y papur gan:	Ceri Davies – Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y papur gan:	Amanda Paton – Arbenigwr, Trawsnewid Gwasanaethau Cwsmeriaid

Diben y papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Bod y Bwrdd yn nodi blaenoriaethau cynnydd y rhaglen a'r ffocws yn y dyfodol

Effaith:	Edrych ar yr <u>hirdymor</u>: Bydd y Rhaglen Cwsmeriaid yn gwella'r ffordd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â'i randdeiliaid ac yn cyfathrebu â nhw, a fydd yn gwella enw da Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr hirdymor.
-----------------	--

Cefndir

1. Cadarnhawyd Strategaeth Cwsmeriaid gyntaf Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Rhaglen Cwsmeriaid ym mis Medi 2018. Bydd y rhaglen yn cyflawni yn unol â'n 2V a'n 5C – gweledigaeth a gwerthoedd (vision and values); y cwsmer, cyfathrebu, masnachol, diwylliant a chydweithredu (customer, communication, commercial, culture and collaboration). Bydd yn gwella'r canlynol:
 - Ein gallu i 'wneud pethau'n iawn y tro cyntaf';
 - Pa mor hawdd yw delio â ni fel sefydliad;
 - Pa mor hawdd yw defnyddio ein gwefan a'n gwasanaethau digidol;
 - Ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.
2. Yn yr hirdymor, yn ogystal â chyflawni profiadau cwsmeriaid o'r radd flaenaf, bydd y rhaglen yn rhyddhau adnoddau i'w hailfuddsoddi yn y busnes.

Cynnydd y Rhaglen

3. Ers y diweddariad diwethaf ym mis Mawrth, lluniodd adolygiad o'r rhaglen gynnig cyflawni diwygiedig. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau y gallai'r gwaith cyflawni gofynnol i gael y pethau sylfaenol yn iawn barhau yn ystod Brexit a chmau Cynllun y Sefydliad. Cytunodd Bwrdd y Rhaglen Cwsmeriaid i'r cynnig, a oedd yn cynnwys camu'n ôl er mwyn canolbwyntio ar gyflawni chwech o'r 13 prosiect fel bod 'y pethau sylfaenol yn iawn', a chyllid ychwanegol o £208 mil ar gyfer adnoddau i'r rhaglen a'r prosiect.
4. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu diwygio, ac mae iddynt ffocws cadarn ar integreiddio'r rhaglen yn Cyfoeth Naturiol Cymru trwy strwythurau newydd cynllun y sefydliad a threfniadau llywodraethu newydd (Byrddau Busnes, rhaglenni gwaith strategol a chylchoedd cyllido).
5. Mae mesurau gwerthuso rhaglenni wedi cael eu datblygu, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Awst. Mae'r Dangosfwrdd Cwsmeriaid yn offeryn allweddol ar gyfer casglu ac olrhain perfformiad y rhaglen. Aeth drwy gam pellach o welliant yn ddiweddar ac mae bellach yn cynnwys dangosyddion perfformiad gwefannau a chyfryngau cymdeithasol allweddol sy'n darparu un pwynt o fewnwelediad ar lefel y rhaglen. Yn ogystal, caiff ei ddefnyddio i ddarparu mewnwelediad mwy hyderus a deinamig i'r busnes ac i nodi tueddiadau'r dyfodol.

Crynodeb o Ddiweddariad y Prosiect

6. Mae'r adran hon yn darparu diweddariad manwl ar gynnydd yr un prosiect sydd wedi cael ei gwblhau a'r pum prosiect blaenoriaeth sydd wrthi'n cael eu cyflawni.

Prosiect Prif Dasgau

7. Ym mis Tachwedd 2018, cafodd proses lle roedd cwsmeriaid yn profi deg tasg fwyaf poblogaidd y wefan ei chynnal gyda chwsmeriaid a dinasyddion ac roedd cynrychiolwyr o'r diwydiannau dŵr, gwastraff, ffermio a choedwigaeth.
8. Mae'r prosiect hwn bellach wedi'i gwblhau. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion wedi cael eu cofnodi a'u cyflwyno i fyrddau busnes, ac maent bellach yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r wefan, gwella'r cynnwys a blaenoriaethu gwaith.

Prosiect Gwella'r Wefan

9. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddwy elfen: gwella'r cynnwys a datblygu'r cynnwys. Mae'r ddwy elfen hyn wedi cael eu llywio gan dystiolaeth gan ddefnyddwyr a set o ddata cynhwysfawr a grynhowyd trwy archwilio'r wefan ac adborth gan gwsmeriaid.
10. Mae'n ddyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i fodloni safonau hygrychedd newydd (Rheoliadau Hygrychedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysyadau Symudol) (Rhif 2) 2018) erbyn mis Medi 2020.
11. Ceir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn, ac mae'r pwyslais cyfredol ar gyfathrebu mewnol sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn galw'r busnes i weithredu. Mae gwaith

cyfathrebu wedi digwydd drwy gyfrwng nifer o lwybrau, gan gynnwys cyfarwyddiadau misol gan y rheolwyr a chyflwyniadau i Benaethiaid Busnes a Byrddau Gwasanaeth a Busnes, yn ogystal ag ar bosteri, ar y fewnrwyd, trwy becyn cymorth cynnwys ar y we, a stondin ar ddiwrnod #TîmCNC ym mis Tachwedd.

12. Mae cynnydd ar yr elfen datblygu fel a ganlyn:

- Mae'r tîm yn mynd i'r afael yn gyntaf â chynnwys sy'n seiliedig ar dasgau gan y bydd hyn o'r budd mwyaf i gwsmeriaid ac yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth yn y rheoliadau. Maen nhw wedi bod yn gweithio'n agos gyda meysydd o'r busnes i drosi dogfennau PDF yn gynnwys hygyrch i'r we a fydd yn gwella swyddogaeth chwilio'r cwsmer.
- Er mwyn atal cynnwys anhygyrch rhag tyfu, rhoddwyd proses ar draws y busnes ar waith o 1 Awst a oedd yn cynnwys cyhoeddi cyngor a chanllawiau i staff ar yr hyn y mae'r rheoliadau yn ei olygu iddyn nhw a chyfeirio at y tîm digidol am gyngor a chefnogaeth un-i-un.

13. Mae'r tîm yn gweithio drwy'r 253 o ddogfennau PDF sydd wedi cael eu nodi yn rhai â blaenoriaeth, a hynny ar y sail eu bod yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i gwsmeriaid i'w galluogi i gwblhau'r tasgau maen nhw'n dod atom amdanynt. Mae nifer gwirioneddol yr atodiadau sydd, ar hyn o bryd, yn anhygyrch yn llawer mwy. Mae'r ffigur 253 yn debygol o godi'n sylweddol wrth i ragor o atodiadau gael eu dadansoddi.

14. Bydd y datganiad hygyrchedd ar gyfer ein gwefan yn adnodd allweddol, ac mae'n cael ei ddatblygu gan bennu'r hyn a wyddom ei fod yn anhygyrch ar hyn o bryd, ynghyd â'n hamserlenni a'n cynlluniau ar gyfer unioni'r sefyllfa.

15. Cafwyd cyngor gan dîm cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru (27 Awst) i gael arweiniad ar ein dehongliad o'r rheoliadau. Bydd y cyngor hwn yn llywio'r hyn sydd wedi'i eithrio, yr hyn y dylai'r datganiad hygyrchedd ei gynnwys, ac, yn y pen draw, blaenoriaethau ein busnes.

16. Mae'r tîm digidol wedi bod yn ymgysylltu â sefydliadau eraill mewn sectorau trawslywodraethol sydd hefyd yn gorfod bodloni'r safonau hyn, fel y gallwn ddysgu o'u dulliau nhw. Mae'r rhain yn cynnwys fforymau trawslywodraethol drwy weminarau a'r cyfryngau cymdeithasol.

17. Darperir llywodraethiant mewnol drwy Fwrdd Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol. Aethpwyd â phapur i gyfarfod mis Medi i ystyried y materion uchod.

Datblygu'r We

18. Cafodd yr elfen hon o'r gwaith ei gohirio tra oedd cyfnod prawf y tîm yn cael ei gyflawni. Y nod yw ailddechrau'r gwaith datblygu ar ôl recriwtio pobl i swyddi ychwanegol, a fydd yn digwydd ym mis Hydref.

Prosiect Canolfan Cwsmeriaid

19. Mae gwaith mireinio yn mynd rhagddo ar gyfer y broses gwynion, ac mae'n canolbwyntio ar leihau'r broses tri cham gyfredol a gwneud y ganolfan yn siop un stop ar gyfer cwynion.
20. Mae pecyn cyflawn o hyfforddiant ar y gweill ar gyfer staff yn y ganolfan, sy'n seiliedig ar rôl pob swydd ac a fydd yn sicrhau bod yna swyddogion amlsgiliau ar gael yn y ganolfan sy'n deall y gwahanol brosesau yno ac yn gallu ymgorffori newidiadau busnes ledled y tîm. Mae hyn yn cynyddu ein hymatebion o ran parhad busnes hefyd.
21. Disgwylir i borth trwyddedu cludwyr gwastraff a phyrth cofrestr gyhoeddus sengl sy'n galluogi cwsmeriaid i hunanwasanaethu ddod ar-lein ym mis Medi 2019, a bydd hyn yn arwain at well gwasanaeth ar-lein i lawer o'n cwsmeriaid allweddol a gostyngiad yn nifer y galwadau. Bydd yr amser a gymerir i brosesu trwyddedau cludwyr gwastraff yn gostwng o 1½ awr yn fewnol i 20 munud ar-lein, gan alluogi cwsmeriaid i hunanwasanaethu.

Prosiect Safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid

22. Mae'r Datganiad Gwasanaethau Cwsmeriaid (sy'n amlinellu ein hamseroedd ymateb ar gyfer ymholiadau a chwynion sy'n cyrraedd drwy bob sianel) bellach ar gael i'r cyhoedd a gellir ei ddarganfod o dan dudalennau 'Amseroedd Ymateb' ein gwefan. Bydd y datganiad yn elfen annatod o'n Siarter Cwsmeriaid pan fydd hon wedi cael ei chwblhau.

Siarter Cwsmeriaid

23. Mae'r siarter ddrafft gychwynnol wedi cael ei chynhyrchu, a bydd yn cael ei dosbarthu i gwsmeriaid mewnol ac allanol yn yr hydref ar gyfer sylwadau ac i'w datblygu. Y Siarter Cwsmeriaid fydd un o'r eitemau cyntaf i gael ei hadolygu gan y Fforwm Cynnwys Cwsmeriaid. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn unol â chynllun cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i ddiweddarau, a'r broses o recriwtio'r Swyddog Ymgysylltu Arbenigol ym mis Hydref.

Tôn Llais

24. Cynigiwyd hyfforddiant gweithdy i gynyddu safonau gohebiaeth ysgrifenedig i dros 182 o staff. Gwahoddwyd hwy i fynychu 17 o sesiynau gweithdy peilot ar gyfer wyth uned fusnes, gan gynnwys staff trwyddedu a staff gwerthu pren allweddol. Mae 50 o gwsmeriaid mewnol wedi gwneud cais i ddilyn cyrsiau yn y dyfodol. Hyd yn hyn, mae'r gwerthusiadau yn dangos bod staff yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r dull o'i gyflwyno. Mae'r cwrs wedi cael ei deilwra erbyn hyn i gefnogi'r agweddau cwsmeriaid masnachol, a hynny gyda sesiwn ar 25 Medi ar gyfer timau labordy Cyfoeth Naturiol Cymru.
25. Bydd adolygiad o'r 17 o weithdai peilot y cam cyntaf yn nodi pa elfennau o'r hyfforddiant sydd wedi bod fwyaf effeithiol. Bydd yr elfennau hyn wedyn yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni sefydlu ehangach a fydd yn cael eu cyflwyno ledled Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwyrach eleni. Gallai'r rhain gynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â ffyrdd o weithio a phren / Grant Thornton. Bydd yr adolygiad peilot hefyd

yn pennu a fydd cam pellach o hyfforddiant gweithdy tôn y llais yn cael ei gynnal unwaith eto.

26. Bydd ail weithdy ymgysylltu wyneb yn wyneb (sy'n canolbwyntio ar dôn y llais wrth siarad) yn cael ei gynnal yng ngogledd Cymru ar 9 Hydref. Trefnwyd y gweithdy hwn mewn ymateb i'r galw gan y busnes, sy'n pwysleisio ein gwerthoedd a'n hymddygiadau.
27. Mae llwyddiant yn cael ei fesur trwy adborth gan fynychwyr mewn sesiynau, trwy ddarparu holiaduron, a thrwy fewnwelediadau sy'n canolbwyntio ar dwf mewn gwybodaeth, gwelliannau diriaethol i ffurflenni, llythyrau a negeseuon e-bost, ac, yn bwysig, enghrefftiau o newidiadau mewn ymddygiad.

Fforwm Cynnwys Cwsmeriaid

28. Mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar ddatblygu prosesau a ffurflenni sy'n ofynnol i recriwtio partneriaid. Mae'r gwaith o fapio'r fforymau cyfredol yn mynd rhagddo ledled y busnes, a bydd cynghorydd ymgysylltu arbenigol yn cael ei recriwtio ym mis Hydref. Bydd y rôl allweddol hon yn cyflawni prosiect y Fforwm Cynnwys Cwsmeriaid, a fydd yn cynnwys datblygu'r gymuned o ymarferwyr ymgysylltu mewnol a gweithio ar y cyd ag eraill ledled y busnes sy'n rhoi ymgysylltu ar waith, yn ogystal â chyd-ddatblygu strategaeth ymgysylltu hirdymor ddrafft i'w hystyried gan y busnes.

Dylanwadu ar Arfer, Gwerthoedd ac Ymddygiadau yn Cyfoeth Naturiol Cymru

29. Mae methodoleg gwelliant parhaus yn cael ei hymgorffori mewn prosiectau cwsmeriaid. Mae tîm y rhaglen cwsmeriaid wedi bod yn rhagweithiol wrth annog timau a'r busnes yn ehangach i feithrin perthnasoedd. Weithiau dim ond mater o gyflwyno timau yw hyn a'u hannog i weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar daith y defnyddiwr o un pen i'r llall. Mae hyn yn helpu i chwalu rhwystrau diwylliannol.
30. Profwyd heriau o ran sut roedd y porth rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid (yn hytrach nag anghenion busnes). Mae hyn wedi arwain at ddyluniad newydd a fydd yn diwallu anghenion cwsmeriaid a'r busnes a system sydd â mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol cyn gwneud buddsoddiad ariannol sylweddol.
31. Yn dilyn adborth gan gwsmeriaid mewnol, ailwampwyd y gronfa arloesi i wella taith cwsmeriaid. Mae hyn wedi arwain at broses sy'n ei gwneud yn haws i staff gynnig syniadau cyn cyflwyno cais llawn.
32. Sicrhwyd bod cwsmeriaid wedi'u cynrychioli ar nifer o Fyrddau Busnes a datblygwyd egwyddorion a safonau TGCh ar gyfer ffyrdd ystwyth o weithio. Mae hyn wedi sicrhau bod ffocws y cwsmer yn cael ei ystyried a'i fod yn dylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru o'r pwynt dylunio cynharaf.

Dysgu Partneriaid Allanol

33. Mae adroddiad y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid (ICS) yn nodi tueddiadau cenedlaethol a bydd y dysgu hwn yn cael ei rannu ledled Cyfoeth Naturiol Cymru trwy'r gweithgor gwerthuso cwsmeriaid arbenigol sydd newydd ei ffurfio.
34. Bydd mwy o ymweliadau â sefydliadau allanol, gan gynnwys Dŵr Cymru, i rannu awgrymiadau ac arfer gorau, yn digwydd yn yr hydref.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

35. Cadarnhawyd cynllun cyfathrebu'r rhaglen ym mis Mawrth, i gefnogi lansiad y rhaglen. Bydd y cynllun yn cael ei adnewyddu pan fydd swyddog cyfathrebu'r rhaglen yn dechrau yn ei swydd (mis Hydref), a hynny er mwyn sicrhau bod y cynllun yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd cyfredol i hyrwyddo buddion y prosiectau a chyflawni ymgyrchoedd cyfathrebu ledled Cymru. Byddwn yn gwneud y mwyaf o Wythnos Genedlaethol Gwasanaethau Cwsmeriaid ym mis Hydref, diwrnod #TîmCNC a chyfleoedd eraill trwy sefydliadau partner a rhoddir pwyslais ar straeon cadarnhaol a'r cynnydd a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Adrodd Straeon

36. Bydd hyn yn flaenoriaeth i swyddog cyfathrebu newydd y rhaglen. Bydd yn datblygu amrywiaeth gynhwysol o ffyrdd o adrodd stori'r cwsmer, a hynny mewn ffordd sy'n amlygu buddion y rhaglen a'r prosiectau sy'n rhan ohoni mewn ffordd sy'n ennyn cytundeb ein cynulleidfaoedd gwahanol.
37. Bydd cyflwyno swyddog ymgysylltu a chyfathrebu penodol ychwanegol yn y ganolfan cwsmeriaid yn rhoi mwy o bwyslais ar feithrin perthnasoedd yn y sefydliad. Bydd y rôl yn darparu rôl allgymorth/ymgysylltu fewnol i dimau a chyfarwyddiaethau ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru, gan arwain at berthnasoedd gwaith gwell ac uno mewnwelediadau cwsmeriaid o'r pwynt cynharaf.

Risgiau Allweddol

38. Y risg o ddargyfeirio posibl o ran adnoddau, ynghyd ag aflonyddwch sefydliadol pellach o ganlyniad i ofynion rownd 2 Brexit a chynllun gweithredu Grant Thornton (hyfforddiant ar gyfer yr holl staff a dargyfeirio arbenigwyr pwnc).
39. Y risg o fethu sicrhau'r amgylchedd gorau ar gyfer ymgysylltu a pherchnogaeth, ac o ran adnoddau i brosiectau cwsmeriaid, a hynny o ganlyniad i ffocws y staff yn ystod camau olaf Cynllun y Sefydliad.
40. Y risg o fethu sicrhau ymgysylltiad y staff i gyflwyno'r rhaglen, i fynychu hyfforddiant ac i ddarparu mewnbwn arbenigol gofynnol i gyflawni'r 13 o brosiectau.
41. Y risg o beidio â bodloni gofynion hygyrchedd y we erbyn 2020 – mae materion yn codi o drosi'r 253 o ddogfennau PDF yn gynnwys y we heb gynnal adolygiad strategol o holl gynnwys y we yn y maes hwnnw, a gwella a chynyddu cysondeb prosesau ochr gefn.

Lliniaru:

42. Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu'r rhaglen yn cael ei adolygu'n rheolaidd i ystyried y risgiau hyn ac i sicrhau bod adnoddau staff a gwariant ar y rhaglen yn cael eu targedu lle a phryd y maent fwyaf effeithiol.
43. Rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â hygyrchedd y we trwy Fyrddau Busnes perthnasol, a fydd, ynghyd ag arweiniad gan ein hadran gyfreithiol a chyfeiriad gan sefydliadau eraill ar eu dull, yn llywio ein datganiad hygyrchedd a'n cyfathrebiadau.

Y Camau Nesaf

44. Yn 2019-20, bydd y canlynol yn cael eu cyflawni o ganlyniad i brosiectau cwsmeriaid rhaglen-benodol neu brosiectau rhaglenni Datblygu ac Arloesi a rennir:
 - Y gallu i dalu ar-lein
 - Y gallu i gynnal Gwe-sgyrsiau a sgysfotiau
 - Negeseuon a llifoedd gwaith awtomatig i helpu staff a chwsmeriaid
 - Cyflwyno safonau prosiectau dylunio gwasanaeth cwsmeriaid ledled CNC
 - Ehangu Rheoli Hunaniaeth Cwsmeriaid i wasanaethau digidol eraill
 - Ailwampio'r bensaerniaeth teleffoni ar gyfer y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau, y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid a Desg Gymorth TGCh
 - Ehangu gallu'r elfen Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a'i hintegreiddio i feysydd allweddol y sefydliad
 - Datblygu Siarter Cwsmeriaid CNC ar y cyd
 - Rhaglen ddysgu sy'n rhagorol ym marn cwsmeriaid
 - Gwobrau a chydabyddiaeth i staff sy'n rhagorol ym marn cwsmeriaid
 - Rhaglen waith gwelliant parhaus i'r gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer y tîm Gwelliant Parhaus

Goblygiadau Ariannol

45. Cafodd cyllid o £808 mil ei ddyrannu ar gyfer 2019-20. Mae £208 mil ychwanegol wedi cael ei gymeradwyo i gyflawni'r cynnig diwygiedig, sy'n dod â chyfanswm y dyraniad i £1.01 miliwn.
46. Un o'r pethau i'w cyflawni eleni yw llunio cynllun trawsnewidiol tair blynedd wedi'i gostio. Bydd y cynnig drafft yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2020, ac yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n derfynol trwy'r llwybrau llywodraethu y cytunwyd arnynt. Mae cyfran fawr o'r gyllideb yn ymwneud â TGCh, ac mae cynigion yn cael eu datblygu ar y cyd gan y Pennaeth TGCh a Rheolwr y Rhaglen Datblygu ac Arloesi. Mae amcanestyniadau dangosol cynnar yn llywio'r cylchoedd cynllunio ariannol cyfredol, ac yn y dyfodol, trwy Cyllid.

Mynegai o Atodiadau

Atodiad 1 – Manylion Pellach ynghylch Prosiectau'r Rhaglen Cwsmeriaid

Papur y Bwrdd

18/19 Medi 2019

Teitl y papur:	Diweddariad ar is-ddeddfau pysgodfeydd
Cyfeirnod y papur:	Papur 19-09-B14
Noddwyd y papur gan:	Ruth Jenkins
Cyflwynir y papur gan:	Peter Gough

Diben y papur:	Er gwybodaeth a phenderfyniad
Argymhelliad:	Yn dilyn y penderfyniad gan y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2019 i gadarnhau Is-ddeddfau Cymru Gyfan, gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol: - 1. Nodi gweithrediad yr is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd yng Nghymru, sydd i ddod i rym ar 1 Ionawr 2020; 2. Nodi cais Cyfoeth Naturiol Cymru a gyflwynir yn fuan (yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018) i'r Gweinidog i gadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2019; 3. Nodi'r camau gweithredu cydamserol a chyflenwol arfaethedig gan Asiantaeth yr Amgylchedd i wneud cais am is-ddeddfau cyfatebol yn y rhannau o ddalgylchoedd afon Dyfrdwy ac afon Gwy sydd yn Lloegr; 4. Nodi penderfyniad diweddar Asiantaeth yr Amgylchedd i weithredu is-ddeddfau brys yn y rhannau o ddalgylch afon Hafren sydd yn Lloegr; 5. Ystyried a chymeradwyo cynnig Cyfoeth Naturiol Cymru i greu a gweithredu is-ddeddfau brys newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid yn y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru (Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2019). Byddai cymeradwyaeth y Bwrdd yn arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn creu ac yn gweithredu is-ddeddfau brys newydd, sy'n cyd-fynd ag is-ddeddfau brys

	Asiantaeth yr Amgylchedd, i'w rhoi ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.
--	--

Effaith:	Edrych i'r <u>hirdymor</u>: diogelu stociau o eogiaid a brithyllod y môr rhag dirywio ymhellach a hyrwyddo'r gwaith o'u hadfer tuag at statws cynaliadwy. Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>: dim ond rhan o'r stori yw dulliau rheoli pysgota - byddwn yn parhau i weithio er mwyn hyrwyddo'r gwaith o adfer ansawdd cynefinoedd afonydd. Bydd y cynigion yn cyflwyno dull integredig o weithio yn nalgylch afon Hafren, yn dilyn arweiniad cytunedig Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer rheoli pysgod mudol yn y dalgylch hwnnw. Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r <u>boblogaeth</u>: mae pysgota yn ddiddordeb poblogaidd i nifer fawr o bobl, gan gynnwys yr henoed a phobl anabl. Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>: mae gennym bartneriaid galluog yn yr ymddiriedolaethau afonydd ac mae angen i ni gynnal perthynas gynhyrchiol â nhw. <u>Atal</u> problemau rhag codi: mae'n rhaid i ni weithredu er mwyn diogelu ein stociau eogiaid a brithyllod y môr, gan roi cychwyn ar y gwaith o adfer stociau wrth i fentrau Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid adfer ansawdd afonydd.
-----------------	---

Pwnc

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r diweddaraf ar y sefyllfa bresennol o ran yr is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd am eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru, gan gynnwys o fewn y tri dalgylch trawsffiniol.

Is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd Cymru gyfan

2. Mae Is-ddeddfau Cymru Gyfan sy'n berthnasol i bysgota â gwialen mewn afonydd ac ar gyfer pysgodfeydd rhwyd aberol, y mae pob rhan ohonynt yng Nghymru, wedi'u cadarnhau gan y Gweinidog a deuant i rym ar 1 Ionawr 2020.
3. Yr eithriadau daearyddol i hyn yw'r tair afon drawsffiniol (afon Dyfrdwy, afon Hafren ac afon Gwy).
4. O ran dalgylch trawsffiniol afon Hafren, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn arwain y gwaith rheoli ar faterion sy'n ymwneud â physgod mudol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cymryd yr awenau ar gyfer dalgylchoedd trawsffiniol afon Gwy ac afon Dyfrdwy, er mwyn sicrhau dull integredig o reoli stoc pysgod mudol ym mhob dalgylch.

Trefniadau ar gyfer afonydd trawsffiniol afon Dyfrdwy ac afon Gwy

5. Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018, gwneir cais yn fuan i'r Gweinidog i gadarnhau is-ddeddfau newydd pysgota â gwialen ar gyfer afon Dyfrdwy ac afon Gwy (Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2019), a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2020. Gan fod yr is-ddeddfau hyn wedi dibynnu ar y Gweinidog yn cadarnhau Is-ddeddfau Cymru Gyfan, ni ellid gwneud y cais hwn cyn cael y cadarnhad hwnnw.
6. Cytunwyd yn flaenorol ag Asiantaeth yr Amgylchedd y bydd yn gwneud cais cyfatebol ar yr un pryd i DEFRA i gadarnhau is-ddeddfau cyflenwol yn y rhannau o'r ddwy afon drawsffiniol hyn sydd yn Lloegr. Eto, diben hyn yw sicrhau dull integredig o weithio ac i sicrhau bod unffurfiaeth ar gyfer rhanddeiliaid ar afonydd trawsffiniol.

Trefniadau ar gyfer afon Hafren drawsffiniol

7. O ran afon Hafren, dilynodd Cyfoeth Naturiol Cymru arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd yn flaenorol, gan fabwysiadu ei hachos technegol wrth ymgynghori ar gynigion ar gyfer rheolaethau pysgota newydd ar yr afon honno. Roedd y cynigion hyn yn cynnwys copïo lefelau o warchodaeth a ddarparwyd yn flaenorol gan Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 2008, a oedd yn cynnwys pysgota dal a rhyddhau ar gyfer eogiaid a chyfyngiadau ar ddulliau cyn 16 Mehefin bob blwyddyn.
8. Gwnaed is-ddeddfau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 14 Mehefin 2018 a chynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Mehefin 2018 a 12 Medi 2018. Arweiniodd at ymateb unigol a anogodd Cyfoeth Naturiol Cymru i roi cynigion mwy radical ar waith fel y'u cynigiwyd ar gyfer afonydd eraill yng Nghymru. Yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Bwrdd yn y dyfodol, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cais i'r Gweinidog gadarnhau'r is-ddeddfau hyn, ond byddai hyn wedi dibynnu hefyd ar gadarnhau Is-ddeddfau Cymru Gyfan cyn hynny.
9. Newidiodd safbwynt Asiantaeth yr Amgylchedd ar afon Hafren yng ngwanwyn 2019, pan fu iddi ailasesu'r asesiad technegol o'r stoc ar gyfer yr afon, gan ddod i'r casgliad fod y stoc eogiaid mewn cyflwr llawer gwaeth nag y rhagdybiwyd. Felly, penderfynodd Asiantaeth yr Amgylchedd i greu a gweithredu'r is-ddeddfau brys ar gyfer y bysgodfa rwyd yn y rhan o aber afon Hafren sydd yn Lloegr a'r bysgodfa wialen yn y rhannau o afon Hafren sydd yn Lloegr. Daeth Is-ddeddfau Brys Gwarchod Eogiaid Aber Afon Hafren i rym yn y rhannau o afon Hafren sydd yn Lloegr ar 14 Mehefin 2019.
10. Yn dilyn Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei rôl fel rheolwr dalgylch afon Hafren, a chan gydnabod yr angen brys i weithredu a gydnabwyd yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cynnig gweithredu is-ddeddfau brys ar gyfer y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru, gan gopïo'r gwaith a wneir yn Lloegr ac felly sicrhau dull integredig a pharhaus o weithio ar gyfer afon Hafren. Byddai'r mesurau hyn yn dod i rym cyn gynted â phosibl ac yn para nes eu bod yn dod i ben ar gyfer yr afon yn ei chyfanrwydd ar 14 Mehefin 2020.

Felly, nid oes angen arfarnu opsiynau gan fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cwblhau'r ymarfer hwn eisoes a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i fabwysiadu.

11. Byddai'r is-ddeddfau brys newydd ar gyfer y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru yn diwygio Is-ddeddfau Brys Gwarchod Eogiaid Cymru 2018 sy'n bodoli eisoes ac sy'n cwmpasu Cymru gyfan, fel na fyddai'r hen is-ddeddfau'n berthnasol i afon Hafren mwyach.

Cefndir

12. Yn unol â dyletswyddau pysgodfeydd statudol Cyfoeth Naturiol Cymru, ein hamcan cyffredinol ar gyfer stociau eogiaid mudol a brithyllod y môr yng Nghymru yw: -

“Diogelu cynaliadwydd ein cyflenwad naturiol o stociau eogiaid a brithyllod y môr gwyllt yng Nghymru drwy gymhwyso'r arferion gorau o ran gwyddoniaeth a rheolaeth.”

13. Wrth fynd i'r afael â'r amcan hwn, ein dyletswyddau statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ystyried y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel y'i diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig y llywodraeth. Rydym hefyd yn ystyried ymrwymadau rhyngwladol y DU i NASCO (Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd), sy'n cynnwys gweithredu'r dull rhagofalus o reoli stociau eogiaid.
14. Cymeradwywyd lansiad tri ymgynghoriad statudol gan y Bwrdd (ym mis Mehefin 2017): -
- 14.1. is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd newydd ar gyfer afonydd yng Nghymru yn unig. Ar ôl cwblhau ymgynghoriad ac ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo ein safbwynt, gwnaed ein cais i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r is-ddeddfau newydd ar 20 Chwefror 2018. Cyfeiriodd y Gweinidog ein cais at ymchwiliad lleol ac, ar ôl hynny, cyhoeddodd ei chymeradwyaeth lawn i'r mesurau ar 16 Gorffennaf 2019, a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2020;
- 14.2. is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd ar gyfer afonydd trawsffiniol afon Dyfrdwy ac afon Gwy. Cwblhawyd yr ymgynghoriad hwn ar 5 Chwefror 2018, ac ar 12 Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Bwrdd gais i'w wneud i Lywodraeth Cymru am gadarnhad, yn dibynnu ar y Gweinidog yn cadarnhau Is-ddeddfau Cymru Gyfan. Gan ein bod bellach wedi cael y cadarnhad hwnnw, yn dibynnu ar ddiwedd y cyfnod y gellir cyflwyno unrhyw her i benderfyniad y Gweinidog, byddwn yn gwneud cais am gadarnhad o'r is-ddeddfau trawsffiniol (afon Dyfrdwy ac afon Gwy) yn yr hydref;
- 14.3. roedd trydedd elfen ac elfen olaf yr is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd ar gyfer afon Hafren drawsffiniol (y rhannau ohoni sydd yng Nghymru). Cwblhawyd yr ymgynghoriad hwn ar 12 Medi 2018 a pharatowyd cais i geisio cymeradwyaeth y Bwrdd am gyflwyniad i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel y'i nodwyd uchod, mae Asiantaeth yr Amgylchedd bellach wedi ymateb i'r dystiolaeth dechnegol ddiwygiedig gyda phecyn o is-ddeddfau brys, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cynnig dilyn yr arweiniad hwn.
15. Gwnaed Is-ddeddfau Brys Gwarchod Eogiaid Cymru 2018 ym mis Rhagfyr 2018 er mwyn ymdrin â phob afon yng Nghymru y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau ar gyfer pysgodfeydd ynddynt. Roedd y rhain yn ofynnol gan y bu i'r is-ddeddfau cenedlaethol blaenorol ar gyfer eogiaid ddarfod ar 31 Rhagfyr 2018. Arweiniodd penderfyniad y Gweinidog i gynnal ymchwiliad lleol ynghylch Is-ddeddfau Cymru Gyfan at risg y byddai stociau pysgod yng Nghymru yn cael gwarchodaeth annigonol yn ystod 2019, nes y byddai'r Gweinidog yn gwneud ei phenderfyniad.

16. Mae'r broses barhaus o ymgysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau canlyniadau integredig ar y tair afon drawsffiniol hefyd wedi cael ei hamlinellu yn flaenorol, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Cefndir – is-ddeddfau brys

17. Er mwyn copïo camau gweithredu Asiantaeth yr Amgylchedd ar is-ddeddfau brys ar gyfer afon Hafren, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y pwerau ar gyfer creu is-ddeddfau brys yng Nghymru.
18. Mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) yn gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau brys i fynd i'r afael â materion anrhagweledig a allai fygwth statws stociau pysgod.
19. Yn wahanol i is-ddeddfau confensiynol, mae'r broses yn llawer byrrach ac yn gofyn am y canlynol: -
 - 19.1. Cyfoeth Naturiol Cymru i 'wneud' a selio is-ddeddfau a allai bara am gyfnod nad yw'n hwy na 12 mis, os cânt eu gwneud yn y modd hwn;
 - 19.2. Cyfoeth Naturiol Cymru i hysbysu Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn;
 - 19.3. Cyfoeth Naturiol Cymru i roi hysbysiad yn y cyfryngau priodol i gyhoeddi'r penderfyniad (wrth nodi y byddwn hefyd yn cyfathrebu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid).
20. Mae'n rhaid ateb meini prawf penodol er mwyn creu is-ddeddfau brys: -
 - 20.1. mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod niwed yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn sgil unrhyw ddigwyddiad neu ddigwyddiad tebygol i: -
 - 20.1.1. unrhyw bysgod y mae ein pŵer i wneud is-ddeddfau pysgodfeydd yn berthnasol iddynt neu i silod, gametau neu fwyd unrhyw gyfryw bysgod; neu
 - 20.1.2. yr amgylchedd morol neu arfordirol, neu ddyfrol neu ar lan dŵr;
 - 20.2. ystyriwn y byddai is-ddeddfau'n atal neu'n cyfyngu'r niwed hwnnw, neu y byddent yn rhesymol debygol o wneud hynny;
 - 20.3. ystyriwn fod angen i'r is-ddeddfau ddod i rym ar unwaith at y diben hwnnw; ac
 - 20.4. nad oedd y digwyddiad neu debygolrwydd y digwyddiad yn rhesymol ragweladwy.

Credwn fod y meini prawf a nodir uchod wedi'u hateb. Nid oedd penderfyniad diweddar Asiantaeth yr Amgylchedd i ailasesu ei hasesiad technegol o stoc, ei chasgliad fod y stoc eogiaid mewn cyflwr llawer gwaeth nag y rhagwelwyd, a'i phenderfyniad i greu is-ddeddfau brys ar y rhannau o afon Hafren sydd yn Lloegr yn rhesymol ragweladwy.

Er y daeth Is-ddeddfau Brys Gwarchod Eogiaid Cymru 2018 i rym ar 1 Ionawr 2019 i gynnal darpariaethau blaenorol Is-ddeddfau Eogiaid Cenedlaethol 2019 ar bob afon yng Nghymru, gan gynnwys afon Hafren, tan 31 Rhagfyr 2019, nid ystyrir y darpariaethau hyn yn ddigonol mwyaf ar gyfer afon Hafren o ystyried adolygiad diweddar Asiantaeth yr Amgylchedd o'r asesiad o'r stoc eogiaid.

Fodd bynnag, maent wedi parhau'n briodol ar gyfer pob afon arall yng Nghymru tan y byddant yn darfod ar 31 Rhagfyr 2019 a chânt eu disodli gan Is-ddeddfau Cymru Gyfan, a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2020.

21. Nid oes goblygiad statudol i ymgynghori ar is-ddeddfau brys; mewn gwirionedd, gallai gwneud hynny gyfyngu ein gallu i'w cyflwyno. Gellir dadlau na fyddai unrhyw ffurf o ymgynghori yn gyson â chyflawni ein swyddogaethau o ran is-ddeddfau brys mewn modd priodol, yn unol â deddfwriaeth.

Asesiad technegol

22. Wrth gymryd camau gweithredu dros afon Hafren yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu'r ddogfen cyfiawnhad technegol a grëwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd (dogfen fawr yw hon sydd ar gael ar gais).

Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

23. We refer the Board to the issues of socioeconomic benefits set out in a previous paper (July 2018 – [“Proposed application to Welsh Government for confirmation of new fishing byelaws for salmon and sea trout”](#)).

Cyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

24. Nid yw afon Hafren yng Nghymru wedi'i dynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, ac felly ni fydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Crynodeb

25. Mae'r safbwynt ar gyfer yr holl weithgareddau pysgota â gwialen a rhwyd am eogiaid a brithyllod y môr mewn afonydd a dyfroedd arfordirol yng Nghymru yn unig (ac eithrio un bysgodfa rwyd gafl aberol fach) bellach wedi'i benderfynu ar ôl cadarnhau is-ddeddfau pysgota â gwialen a rhwyd Cymru gyfan a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2020.
26. Bydd y safbwynt ar gyfer y ddwy afon drawsffiniol, sef afon Dyfrdwy ac afon Gwy, yn dilyn penderfyniad gan y Gweinidog ar ein cais i gymeradwyo is-ddeddfau pysgota â gwialen newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno'n fuan. Y gobaith yw y daw'r rhain i rym ar 1 Ionawr 2020. Heb gwblhau'n brydlon y broses hon, mae risg sylweddol o ddefnydd anghynaliadwy parhaus o'n stociau a methiant Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau pysgodfeydd statudol ac i Gymru fodloni ei hymrwymiaidau rhyngwladol.
27. Ar gyfer afon Hafren drawsffiniol, deun i'r casgliad mai'r is-ddeddfau brys ar gyfer afon Hafren yng Nghymru, sy'n copïo'r is-ddeddfau brys a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer afon Hafren yn Lloegr, yw'r opsiwn a ffeirir. Byddai'r rhain yn darparu gwell gwarchodaeth i'r stoc fregus o eogiaid ac yn sicrhau dull integredig o weithio er budd rhanddeiliaid ar ddwy ochr y ffin.
28. Felly, rydym yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu dull Asiantaeth yr Amgylchedd o reoli, gan greu a gweithredu is-ddeddfau brys newydd i warchod y pysgodfeydd bregus.
29. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dechrau gweithio ar gyfiawnhad technegol a chais priodol am is-ddeddf ar gyfer mesurau newydd ar ôl i'r is-ddeddfau brys ddarfod yn 2020, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu dilyn y dull hwn o weithio ar gyfer y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru.

Argymhellion

Yn dilyn y penderfyniad gan y Gweinidog a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2019 i gadarnhau Is-ddeddfau Cymru Gyfan, gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol: -

30. Nodi gweithrediad yr is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen a rhwyd yng Nghymru, sydd i ddod i rym ar 1 Ionawr 2020;
31. Nodi cais Cyfoeth Naturiol Cymru a gyflwynir yn fuan (yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018) i'r Gweinidog i gadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afonydd Trawsffiniol (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2019;
32. Nodi'r camau gweithredu cydamserol a chyflenwol arfaethedig gan Asiantaeth yr Amgylchedd i wneud cais am is-ddeddfau cyfatebol yn y rhannau o ddalgylchoedd afon Dyfrdwy ac afon Gwy sydd yn Lloegr;
33. Nodi penderfyniad diweddar Asiantaeth yr Amgylchedd i weithredu is-ddeddfau brys yn y rhannau o ddalgylch afon Hafren sydd yn Lloegr;
34. Ystyried a chymeradwyo cynnig Cyfoeth Naturiol Cymru i greu a gweithredu is-ddeddfau brys newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid yn y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru (Is-ddeddfau Brys Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid) (Cymru) 2019). Byddai cymeradwyaeth y Bwrdd yn arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn creu ac yn gweithredu is-ddeddfau brys cyflenwol newydd, i'w rhoi ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Cyfathrebu

35. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno hysbysu'r holl randdeiliaid perthnasol yn eang ac yn agored ynglŷn â'r penderfyniadau. O ystyried diddordeb mawr y cyhoedd yn y cyfryw gynigion ar gyfer pysgodfeydd, byddwn yn hysbysu ein rhanddeiliaid pysgodfeydd am ein dull o weithio.
36. Bydd hyn yn cynnwys: -
 - 36.1. Dogfen briffio i'r grwpiau pysgodfeydd lleol (afon Dyfrdwy ac afon Gwy) a'r grŵp pysgodfeydd lleol rhithwir ar gyfer afon Hafren;
 - 36.2. Briff i Fforwm Pysgodfeydd Cymru;
 - 36.3. Datganiadau i'r wasg;
 - 36.4. Gosod newyddion a dogfennau ar ein gwefan.
37. Byddwn yn dilyn y cyfathrebiadau hyn â deialog barhaus gyda rhanddeiliaid fel ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i weithredu unrhyw newidiadau cyfreithiol.

Risgiau allweddol

Y risgiau allweddol yw'r rheiny sy'n ymwneud â'r is-ddeddfau brys arfaethedig ar gyfer y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru.

38. Gwarchod stociau bregus o bysgod
Mae'r is-ddeddfau brys newydd ar gyfer afon Hafren, fel y'u cynigir, yn ddatrasiad

pragmataidd i'r sefyllfa bresennol, ac maent yn darparu gwarchodaeth i'r stoc fregus ac anghynaliadwy o eogiaid.

39. Heriau cyfreithiol

Nid hwn fydd y tro cyntaf i is-ddeddfau brys gael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

Rydym yn ymwybodol fod risg iddynt gael eu herio ond rydym wedi dod i'r casgliad fod ein camau gweithredu arfaethedig yn gymesur, yn rhesymol ac yn briodol o dan amgylchiadau'r asesiad diwygiedig ac anrhagweledig o'r stoc a grëwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i ddiwygio neu ddileu is-ddeddfau brys ond, er mwyn gwneud hynny, bydd angen cyflwyno achos i'r perwyl nad oes angen yr is-ddeddfau brys mwyach er mwyn atal neu gyfyngu'r niwed a nodir.

Sylwn na fu unrhyw her i Is-ddeddfau Brys Gwarchod Eogiaid Cymru 2018, nac i Is-ddeddf Frys Gwarchod Eogiaid Aber Afon Hafren Asiantaeth yr Amgylchedd, a ddaeth i rym yn ddiweddar.

40. Herio enw da

Ein rhesymeg y tu ôl i'r is-ddeddfau brys ar gyfer afon Hafren yw sicrhau bod eogiaid yn cael yr un warchodaeth briodol drwy'r holl ddalgylch.

Gallai ein cynnig gael rhywfaint o feirniadaeth (wrth nodi na chafwyd dim yn erbyn is-ddeddfau brys 2018), ond byddai methu â chymryd y cyfryw gamau hefyd yn niweidio enw da Cyfoeth Naturiol Cymru yn sgil y posibilrwydd o fynd yn groes i ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Y camau nesaf

41. Yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Bwrdd, byddwn yn creu ac yn gweithredu is-ddeddfau brys newydd ar gyfer pysgodfa â gwialen y rhannau o afon Hafren sydd yng Nghymru, a fydd yn para am gyfnod o 12 mis.

Goblygiadau ariannol

42. Y goblygiadau ariannol ar gyfer gweithredu'r is-ddeddfau brys yw oddeutu £2,000, sy'n cynnwys costau hysbysebu ac amser staff pysgodfeydd o'r Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r timau Cyfreithiol a Chyfathrebu.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

43. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (Atodiad 1) a oedd yn nodi nad oes risg ar gam 1, sef casgliad nad oes effaith niweidiol yn bodoli.

Atodiad

Atodiad 1 Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Equality Impact Assessment (EqIA)

Version 5

Title:

Proposals for emergency rod fishing byelaws for salmon in the Welsh Severn (the River Severn Rod and Line (Salmon) (Wales) Emergency Byelaws 2019).

Directorate:

Evidence, Policy and Permitting

Assessment date:

15th August 2019



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Guidance on the completion of EqlAs can be found on the NRW Intranet here:
[https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/en-gb/our-organisation/equality-impact-assessments-\(eqia\)](https://cyfoethnaturiolcymru.sharepoint.com/en-gb/our-organisation/equality-impact-assessments-(eqia))

EqlA Stage 1 – Initial Screening

The first stage of conducting an EqlA is to screen the policy, plan or project to determine its relevance to the various equalities issues. This will indicate whether or not a full impact assessment is required and which issues should be considered in it. The protected characteristics that you should consider in completing this screening in addition to the Welsh Language are:

- Age
- Disability
- Gender re-assignment
- Marriage and Civil Partnership
- Pregnancy or maternity
- Race
- Religion or belief
- Sex (male or female)
- Sexual Orientation

Aims

What are the aims of the policy, plan or project?

NRW proposes to make and implement new Emergency Byelaws for rod fishing for salmon in the River Severn within Wales (the River Severn Rod and Line (Salmon) (Wales) Emergency Byelaws 2019).

Following the EA in their role as management lead for the River Severn catchment, and acknowledging the newly-recognised urgent need for action to protect the stock, NRW now proposes implementation of Emergency Byelaws for the Severn in Wales. This will replicate the approach in England and thereby ensure an ongoing integrated approach for the River Severn.

The proposal is to introduce mandatory catch and release of all salmon caught so that all salmon are returned alive, with minimum delay or injury, so that they may contribute to the breeding population. There are no proposed fishing method restrictions.

Evidence

Is there any existing evidence of this policy, plan or project being relevant to any equalities issue?

An EqIA was previously produced for the 'All Wales' fishing controls submission to the NRW Board in January 2018, and thereafter to the recent Local Inquiry to which the Minister referred the matter.

NRW previously concluded, having considered its duties under the Equalities Act 2010, that the byelaws were appropriate and proportionate to meeting NRW's legitimate aim and statutory duty of protecting salmon and sea trout stocks.

During the Inquiry into fisheries byelaw proposals, the 'fundamental right to take a fish' was referred to by a number of stakeholders who perceived that the proposed measures would interfere with their 'fundamental right.' In oral evidence, this misconception was reiterated: that anglers 'purchase a license which entitles us to take a fish - to remove a fish for the table to eat...[the C&R Byelaw would remove] that fundamental right.'

However, in reality there is no fundamental right to take a fish. The statutory right conferred to a fishing licence holder is set out in section 25(2) of the Salmon and Freshwater Fisheries Act 1975 ("the 1975 Act"):

"Subject to the following provisions of this section, a licence granted for the purposes of this section (hereafter in this Act referred to as a "fishing licence") shall entitle the person to whom it was granted and no others to use the means of fishing specified in the licence to fish for any fish of such a description, in such area or areas (or in waters of such description or descriptions) and for such period as is so specified."

This right is the right to fish, not to take fish. The proposed emergency byelaws will not interfere with that right. It will place proportionate restrictions on how that right may be exercised. There are, of course, already restrictions in place, and the proposed byelaws will add to these.

In conclusion, in relation to obligations under the Equal Opportunities Act 2010 and NRW's EQIA, the Inspector stated:

"627. I consider the NRW has discharged its duties under the EA 2010 in a satisfactory manner and that the proposed byelaws are a proportionate response to the aim of conserving and restoring seriously depleted fish stocks in Wales."

https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2019-07/190716%20-%20LG%20-%20Written%20Statement%20-%20Marine%20%26%20Fisheries%20Inspector%27s%20Report%20-%20English_0.pdf

Stakeholders and Feedback

Describe the target group for the policy, plan or project and list any other interested parties. What contact have you had with these groups?

The emergency byelaws now proposed for the River Severn within Wales will potentially impact upon, or be of interest to: -

1. *Anglers*
2. *Fishery and riparian owners*
3. *Angling clubs and associations,*
4. *Fishery associated NGO's eg Rivers trust, S&TC UK, AST*
5. *Wales Fisheries Forum, Local Fishery Groups*

Impact

NRW has liaised extensively with fisheries stakeholders over the past few years on the status of fish stocks and the necessary responses to ensure their conservation. This has included more than 50 informal liaison meetings throughout Wales and 4 statutory consultations. The issues and the necessary response are therefore well known.

NRW recognises that there is a risk that the measures could lead to a decline in angling activity, and it has sought to ensure that the socioeconomic benefits associated with angling are protected, in so far as is commensurate with securing the savings in stocks required to reduce ongoing pressure on them.

The decline in licence sales for salmon and sea trout started several years ago, before the All Wales Byelaws were contemplated, and it is known that there is a direct correlation between this decline in licenses and the reduced availability of fish. It is the ambition of NRW to restore stocks to sustainability, thereby increasing angling opportunity, and the current measures are part of our actions to achieve this.

During the course of the evidence provided to the Local Inquiry into the 'All Wales' rod and net byelaws, it was recognized by some that the deterrent effect of the byelaws to angling activity would be relatively minimal. Those committed to angling are not going to leave the banks. Rather, it is only the casual fishermen who are at risk of being deterred.

What effects, both positive as well as negative, might the work have on people in a protected characteristic group or on use of the Welsh language?

Limited to none - communication through statutory advertisement, press release and engagement with local stakeholders via emails and briefings will be undertaken (bilingually) to ensure awareness.

Internally

Potential impact in relation to staff who regularly liaise and engage with angling interest. We will ensure staff have adequate briefing materials so that they can effectively engage with customers and stakeholders enquiring about the new restrictions.

Externally

No adverse effect anticipated – these emergency byelaws effectively replicate the confirmed approach across Wales ensuring that all salmon are returned to the water with minimum delay and injury.

It is estimated that this will affect a relative low number of anglers in the Welsh Severn catchment, however it should be noted that even the relatively small numbers of fish they catch are now crucial to recover stocks in as short a time as possible. Every spawning fish matters.

Positive effects are anticipated through the contribution of the emergency byelaws to restoration of stock sustainability.

Local Discretion

Does the policy, plan or project allow for local discretion in the way in which it is implemented?

No - Following the EA, in their role as management lead for migratory fish stocks in the River Severn catchment, and acknowledging the newly-recognised urgent need for action, NRW now proposes implementation of Emergency Byelaws for the Severn in Wales. This will complement the approach in England and thereby ensure an ongoing integrated approach for the River Severn.

Specific Impacts

Explain in the table below how you have come to the decision that your work will not impact either positively or negatively if you answer 'No'. If an impact is possible, answer yes and move on to the Stage 2 assessment.

Protected characteristics

Protected Characteristic	Yes or No	If no, what is the rationale for the decision?
Age	No	No groups have been identified that would be affected disproportionately compared to any other group. All groups will be equally affected by the proposed emergency byelaws
Disability	No	As above
Gender Reassignment	No	As above
Marriage and Civil Partnership	No	As above
Pregnancy or Maternity	No	As above
Race	No	As above
Religion or belief	No	As above
Sex (male or female)	No	As above
Sexual Orientation	No	As above

Welsh language

Welsh Language	No	Communication: statutory advertisement, press release and engagement with local stakeholders through emails and briefings will be issued bilingually.
----------------	----	---

If you have answered 'No' to all, a full impact assessment will not be required, and the EqIA can be authorised at this stage. You will, however, need to put in place monitoring arrangements to ensure that any future impacts are identified.

***Delete this page if you are moving on to Stage 2**

Monitoring Arrangements

Describe how you will monitor the work you are implementing in terms of any unforeseen equalities or Welsh language issues that may arise.

NRW does not anticipate concerns or criticisms, however if any should be received then we will assess and respond appropriately.

Review

State when the next review will take place.

June 2020

Authorisation	Name and signature	Date
Policy, plan or project lead	Peter Gough - Principal Advisor Fisheries	15 th August 2019
Line Manager	Ruth Jenkins – Head of Natural Resource Management Policy	21 st August 2019
Welsh Language Policy Advisor	Lyn Williams – Welsh Language Policy Advisor	22 nd August 2019
Equalities Senior Advisor	Samantha Carpenter – Equalities Senior Advisor	16 th August 2019

Please note: EqlAs will always be made available in full if requested by members of the public or stakeholder organisations, including meeting any requests for accessible versions.

Monitoring and reviewing

The EqlA process does not end with the introduction of the policy. It is not enough to make the changes expected to eliminate adverse impact or promote equality; it is also necessary to implement the resulting action plan and use the monitoring, evaluation and review processes to ensure that the anticipated impact is the actual impact and that actions are implemented. Failure to properly monitor the actual impact of an existing policy may leave a public authority open to legal challenge, as well as enforcement action from the Equality and Human Rights Commission or the Welsh Language Commissioner. The EqlA is a tool to assist public authorities in meeting their general duties. Those duties continue to bind public authorities in respect of policies and functions even where an EqlA has been carried out, and public authorities need to satisfy themselves on an ongoing basis that they are continuing to meet each of the general duties.

Papur i'r Bwrdd

Teitl y Papur:	Adroddiad Perfformiad 2019/20 - Chwarter Cyntaf
Cyfeirnod y Papur:	19-09-B15
Noddwyd y Papur gan:	Clare Pillman
Cyflwynir y Papur gan:	Y Tîm Gweithredol

Diben y Papur:	Craffu / Penderfyniad
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad CNC ar gyfer chwarter cyntaf 2019/20 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac ystyried yn benodol: - Cynnydd yn erbyn pob mesur ar y Dangosfwrdd Perfformiad a'r camau y mae CNC yn eu cymryd - Sut rydym wedi cymhwyso'r ddeddfwriaeth ddiweddar - yn enwedig 9 egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (<i>SMNR</i>) a'r 5 ffordd o weithio

Effaith:	Sut mae'r papur hwn yn helpu CNC i gyflawni dulliau gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran: Atal problemau rhag codi: Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn offeryn allweddol wrth ddeall gwaith CNC. Mae'n caniatáu inni gymryd camau ataliol os nad yw perfformiad a chyflawni yn y fan y dylai fod.
----------	---

Mater

- Mae rownd gyntaf eleni, o ran adrodd ar berfformiad corfforaethol rhwng 1 Ebrill 2019 hyd 30 Mehefin 2019, bellach wedi'i chwblhau, ac mae'n gosod ein safle ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn. Paratowyd yr adroddiad perfformiad atodedig ar gyfer craffu gan y Bwrdd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cefndir

- Mae'r adroddiad perfformiad corfforaethol yn un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein darpariaeth a'n cynllunio strategol ategol.
- Datblygwyd yr adroddiad perfformiad (Atodiad 1) fel rhan o'r broses i baratoi Cynllun Busnes 2019/20 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a phwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd. Mae'n cynnwys:

- **Dangosfwrdd** sy'n darparu trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 2019/20 a nodir gan yr amcan Llesiant
- **Tabl** yn adlewyrchu'r cyswllt rhwng ein mesurau, ein deg blaenoriaeth Cynllun Busnes, a'n hamcanion Llesiant

Manylion ar gyfer pob mesur dangosfwrdd ar:

- pam mae'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â phob mesur yn bwysig
- a ydym yn cyrraedd targedau ai peidio;
- yr hyn rydym yn ei wneud i gyrraedd targedau os ydym oddi ar y trywydd iawn.
- sut mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi newid ein dull gweithredu.

4. Dyma'r adroddiad cyntaf yn erbyn ein Cynllun Busnes cyfredol: hon yw'r ail flwyddyn o adrodd sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022.

Asesiad

5. Mae ein perfformiad ar gyfer chwarter cyntaf 19/20 wedi'i grynhoi isod:

	Chwarter Cyntaf (1 Ebrill 2019 hyd 30 Mehefin 2019)
'Gwyrdd'	16
'Ambr/Gwyrdd'	0
'Ambr'	6
'Coch/Ambr'	1
'Coch'	3
Yn cael ei ddal	0
Cyfanswm	26

6. Gofynnir i'r bwrdd graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer chwarter cyntaf 2019/20.
7. Isod, rydym wedi amlinellu detholiad o'r mesurau 'gwyrdd', ynghyd â'r mesurau 'coch', 'coch/ambr' ac 'ambr', er mwyn rhoi trosolwg cytbwys o berfformiad cyfredol CNC: nodir hyn yn ôl yr Amcan Llesiant gyda rhif y dudalen berthnasol yn yr adroddiad yn cael ei nodi hefyd.

Hyrwyddo Amgylchedd Cymru a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru

8. **Gwyrdd - Lleihau ein hól troed carbon a galluogi datgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru i gefnogi'r datganiad o argyfwng hinsawdd.**

Ym mis Gorffennaf, cytunodd y Bwrdd ar gamau blaenoriaethol i CNC mewn ymateb i ddatganiad 'Argyfwng Hinsawdd' Llywodraeth Cymru a wnaed ddiwedd mis Ebrill. Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau'r gwaith o ddatblygu rhaglen waith argyfwng hinsawdd gychwynnol ar gyfer Cymru, gan drafod ein gofynion o ran adnoddau gyda Llywodraeth Cymru.

O fewn CNC, mae ein rhaglen waith datgarboneiddio yn cynnwys rhestru byr o safleoedd addas ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy a sefydlu gweithgor Cerbydau Trydan, er enghraifft, lle'r ydym eisoes wedi dechrau newid cyfran o'n fflyd i bŵer trydan. Mae'r gwaith yn parhau ar gamau gweithredu posibl CNC mewn ymateb i'r datganiad 'Argyfwng ar yr Hinsawdd' a'u dichonoldeb.

9. Ambr – Symud yr ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn ei flaen.

Rydym yn gwneud cynnydd da gyda pharatoi SoNaRR2. Mae'r mesur yn ambr yn Chw1 oherwydd bod rhywfaint o waith wedi'i gynllunio yn arafu o ganlyniad i sefydlu timau newydd ac aelodau newydd y staff yn cymryd rhan yng ngwaith SoNaRR2. Mae'r staff hyn yn cael eu cefnogi gan y tîm craidd. At hyn, rydym yn sicrhau adnoddau dros dro i gefnogi'r gwaith blaenoriaeth hwn. Rydym yn hyderus y bydd perfformiad yn gwella yn ystod Chw2 ac yn symud i wyrdd.

Mae strwythur a fformat lefel uchel SoNaRR2 wedi'i gytuno a'i rannu gyda rhanddeiliaid. Mae gwaith ar y gweill i nodi negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg ynghyd â bylchau mewn anghenion tystiolaeth. Bydd hyn i gyd yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Interim ar gyfer Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn hon.

Mae rhestr arfaethedig o ddangosyddion *SMNR* wedi'i datblygu (ac fe'i rhannwyd â rhanddeiliaid penodol ym mis Gorffennaf). Bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei ystyried yn ystod Chw2. Rydym yn cynllunio ymgysylltiad pellach yn seiliedig ar asesu *SMNR* yn achos yr 8 Cynefin Eang a themâu trawsbynciol.

10. Ambr - Dyrannu cyllid grant i gefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ar hyn o bryd rydym ar y trywydd iawn i gwrdd â'n cerrig milltir; fodd bynnag, rydym wedi nodi bod y ddau fesur cyntaf yn ambr wrth i ni ragweld heriau parhaus yn ystod y flwyddyn wrth gwblhau'r broses ac i sicrhau aliniad llawn â'n polisi grant newydd. Bydd ein Strategaeth Grantiau yn cael ei lansio ym mis Medi/Hydref: rydym ar hyn o bryd yn aros am gymeradwyaeth y Gweinidog er mwyn i ni allu cynnig grantiau.

Rydym wedi cychwyn cyfres o gynlluniau peilot i roi ein dull gweithredu ar brawf a'i addasu, ac rydym wedi symud adnoddau fel bod rheolaeth bwrpasol ar y rhaglen er mwyn rheoli'r llwybr tuag at statws gwyrdd. Bydd hyn yn cynnwys gwreiddio'r polisi, y weithdrefn a'r strategaeth o ran grantiau drwy gyfrwng hyfforddiant pwrpasol ar draws ein strwythur sefydliadol newydd, gan weithio gyda rhanddeiliaid i gyfleu'r newidiadau a'u hategu, a chan sicrhau llwybr uwchgyfeirio clir ar gyfer rheoli'r broses o ddysgu ac addasu'n gynnar. Mae hwn yn gam pwysig gan fod angen y rhaglen grantiau er mwyn cynorthwyo gyda chyflawni rhaglenni amrywiol ar draws y busnes.

Sicrhau bod defnydd tir a dŵr yng Nghymru yn cael ei reoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig

11. Gwyrdd - Gwella rheolaeth tir Cymru yn y dyfodol.

Rydym wedi darparu cefnogaeth dechnegol sylweddol i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r ymgynghoriad nesaf ar fwrw ymlaen â chynlluniau rheoli tir yn y dyfodol, gan gynnwys darparu aelod datganoledig o staff CNC.

Mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn parhau i wneud cynnydd sylweddol ar ystod o brosiectau a thrwy ei aelodaeth eang o randdeiliaid. Mae ganddo gyfres o brosiectau sydd â'r nod o ddeall achosion llygredd yn well a chymryd camau i'w leihau. Mae'r rhaglen ar ddulliau gweithredu gwirfoddol a ariennir gan bartneriaeth yn agos at gynhyrchu ei hadroddiad interim: adolygwyd y cynnydd gan aelodau'r grŵp a thrwy gyfres o weithdai sector. Byddwn yn sicrhau bod cynigion sy'n codi o'r gwaith a ddarperir gan y grŵp yn cyd-fynd â'r dulliau rheoleiddio newydd a awgrymir gan Llywodraeth Cymru.

12. Ambr – Creu coetir newydd ac ailblannu safleoedd a gwmpwyd. Tudalen 15

Rydym wedi gwneud cynnydd da, gyda chmau ar waith i gyflawni yn ôl ein targedau. Rydym wedi sefydlu strwythur rhaglen i gynorthwyo prosiectau creu coetir fel y gallwn gyflawni'n uniongyrchol a thrwy eraill yn ogystal. Rydym wedi canolbwyntio ar sefydlu'r llywodraethiant a dulliau y gellir eu hehangu a'u haddasu i gyflawni'r weledigaeth a'r uchelgais a bennir gan y sawl agwedd sy'n ysgogi mwy o bren a choed coetir, yn unol â'r cyllid sydd ar gael.

Rydym yn cefnogi gwaith mewn partneriaeth ag eraill drwy sawl prosiect, gan gynnwys PLANT! a Chanmlyddiant Coedwigaeth Cymru, er enghraifft. Mae gennym sawl cynllun ar y gweill o ran cyllid partneriaeth.

Rydym wedi ailstocio 483 hectar ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn ystod chwarter cyntaf eleni; rydym yn hyderus y byddwn yn cyrraedd y targed o 1800 ha erbyn diwedd y flwyddyn, gyda gwaith yn parhau i baratoi'r ddaear, a thymor plannu estynedig. Y rhaglen ailstocio yw ein 'llwybr yn ôl at wyrdd' ar gyfer lleihau'r banc tir. Er mai ambr yw hwn ar hyn o bryd, rydym yn hyderus ein bod ar y trywydd iawn i fod o dan 4% erbyn targed 2021/22.

Mae'r Prosiect i ailblannu coetiroedd a gollwyd ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru drwy ein cynlluniau ynni yn ambr, gyda llwybr clir at wyrdd. Mae'r cyllid i gyd yn barod, ynghyd â pholisi a gweithdrefn, ar gyfer cynorthwyo gyda phrynu tir a chynlluniau sydd ar y gweill erbyn hyn ar gyfer asesu, prynu a chynllunio.

13. Coch – Gweithredu Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Ym mis Mehefin, CNC oedd y corff statudol cyntaf yn y DU i gyhoeddi ymgynghoriad 'Heriau a Dewisiadau' Cynlluniau Rheoli Basn Afon cylch 3, sy'n gam hanfodol tuag at ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon nesaf (2021-27).

Ar y cyfan, mae ein targed o ran Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn goch oherwydd cynnydd mwy araf na'r disgwyl gydag ymchwiliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr i gyrff dŵr sy'n methu â chyrraedd statws da cyffredinol. Mae'r rhaglen hon yn dibynnu ar rwydwaith amrywiol o gydweithwyr yn cydweithredu ar draws Cyfarwyddiaethau, ar y cyd â thrydydd partïon fel Dŵr Cymru a'r Awdurdod Glo. Bellach rydym wedi

gweithredu dull pragmatig diwygiedig o ymdrin ag ymchwiliadau, gan ddefnyddio'r data a'r arbenigedd staff sydd ar gael yn y ffordd orau i sicrhau asesiad cyflym o'r ymchwiliadau sydd angen sylw, a chanfod manteision y gellir eu gwireddu'n gyflym.

Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer 4 aelod staff cyfnod penodol ychwanegol i gyflawni ymchwiliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr mewn cyrff dŵr wedi'u targedu, a gwaith monitro cemegion a sbardunir gan y Gyfarwydddeb. Mae'r broses recriwtio'n mynd rhagddi ar gyfer y swyddi hyn.

Er bod ymchwiliadau'n bwysig, mae'n hanfodol cymryd camau i fynd i'r afael â methiannau hysbys yn ein cyrff dŵr – mae'r camau hyn i'w gweld yn y rhaglenni mesurau cenedlaethol a lleol. Mae'r mesurau lleol wedi'u cysylltu â'n cyrff dŵr a dargedir, ac, er mwyn gwneud cynnydd pellach gyda'r gwaith hwn, rydym wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 7 aelod staff ychwanegol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020. Mae 5 yn eu swyddi ar hyn o bryd ac mae proses recriwtio bellach yn mynd rhagddi. Byddai parhau'r saith swyddog hyn i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd yn rhoi hwb i'n gallu i ganolbwyntio ar y gyfres o gyrff dŵr a dargedir yng Nghymru.

Ers diwedd y llynedd, rydym wedi datblygu fframwaith dewis y 'Dalgylch Cyfleoedd'. Bydd Dalgylchoedd Cyfleoedd, sy'n seiliedig ar egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ac ymgysylltu o ran Datganiadau Ardal, yn cynrychioli'r cyrff dŵr hynny sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni sawl mantais i'r amgylchedd a lles cymunedau. Bydd ein Datganiadau Ardal ym mis Mawrth 2020 a'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon cylch 3 yn blaenoriaethu Dalgylchoedd Cyfleoedd. Bydd hyn yn arwain at gydweithredu â phartneriaid mewn modd wedi'i dargedu, drwy raglen cymorth grantiau newydd CNC, er mwyn cynorthwyo'r sefydliadau, y cymunedau a'r tirfeddianwyr cywir i fynd i'r afael â materion parhaus o ran rheoli dŵr a thir ar raddfa dalgylchoedd.

Rydym yn cynnig cyflwyno ystyriaeth fanwl o waith Cynlluniau Rheoli Basn Afon yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

14. Coch/Ambr – Sicrhau rheolaeth ddiogel a chyfrifol barhaus ar gronfeydd dŵr.

Cydymffurfriad 100% yw'r targed tymor hir ac 82% yw'r perfformiad cyfredol, i fyny o 74% y chwarter diwethaf. Mae gwaith yn cael ei gynllunio ac yn cael ei gyflawni yn ôl yr amserlen, ac rydym yn disgwyl cyrraedd ein safle diwedd blwyddyn 19/20 sef cydymffurfriad disgwylidig o 95% (oren - gwyrdd). Er mwyn sicrhau cydymffurfriad 100%, mae angen cwblhau'r gwaith peirianeg sifil sylweddol yn Llyn Tegid. Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad ac os bydd hyn yn parhau mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2022. Felly, ni fyddwn yn cyrraedd y nod o 100% hyd yr amser hwnnw - ond nodwch fod rhaglen dreigl o archwiliadau mewn cronfeydd dŵr ar y gweill, felly gall y ffigurau cydymffurfio newid yn ôl canfyddiadau'r arolygiadau.

Rydym yn cymryd pob cyfle i gyflymu gwaith lle y gallwn, a blaenoriaethu gwaith brys os oes ei angen. Ceir ambell lithriad mewn cerrig milltir prosiect unigol, sydd i'w ddisgwyl gyda'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau adeiladu. Mae hyn yn golygu bod angen rhai addasiadau i'r gyllideb, gan gynnwys ailddyrrannu gwaith o £875k a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer eleni, i'r flwyddyn nesaf. Mae'r cyllid ar gyfer rhaglen y

flwyddyn nesaf yn aros i'w sicrhau gan Lywodraeth Cymru, a chafodd hwn ei gynnwys yn y Cynnig Llinell Sylfaen a gyflwynwyd ar 30 Gorffennaf. Bydd y gyllideb na fydd yn cael ei gwario eleni yn cael ei hailddyrannu i flaenoriaethau buddsoddi cyfalaf eraill CNC. Gan nad yw'r dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio o ran y gwaith hwn tan y flwyddyn nesaf; nid yw hyn yn effeithio ar ffigurau cydymffurfio cyffredinol eleni.

Gwella gwytnwch ac ansawdd ein hecosystemau

15. Ambr – Gweithredu 'Natur Hanfodol' - adfer, creu a gwella cynefin a chynyddu bioamrywiaeth.

Rydym yn bwrw ymlaen â'n mesurau o'r llynedd ac yn eu hadrodd fel ambr, er bod ein rhaglenni gwaith cyfredol yn parhau i gael eu cyflawni (er enghraifft, gwaith ar lawr gwlad ar Wella Statws Cadwraeth nodweddiol ar Safleoedd Gwarchodedig) mae ein rhaglen waith newydd yn dal i gael ei datblygu. Mae hyn yn cynnwys adnoddau wedi'u proffilio a chyllid er mwyn cyflawni ein targedau a'n huchelgeisiau yn 'Natur Hanfodol' ac mewn ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng amgylcheddol ehangach. Mae'r gwaith hwn yn drawsbynciol ac mae'n cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid ac ar draws ein rhaglenni eraill. Rydym yn symud ymlaen â hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf a byddwn yn cyflwyno ein gwaith i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Tachwedd.

16. Gwyrdd – Monitro a mynd i'r afael ag iechyd coed a phlanhigion

Yn ystod y chwarter hwn, cyhoeddwyd 10 Rhybudd Iechyd Planhigion Statudol (*SPHNS*) gennym cyn pen 60 diwrnod ar ôl cadarnhau clefyd, gan gyrraedd ein targed diwygiedig. Ar hyn o bryd mae 1,058 *SPHN* yng Nghymru, sy'n ymestyn dros 12,062 hectar o goetir. Mae 698 o'r rhain - sy'n gorchuddio 8,941 hectar - ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru (*WGWE*).

Rydym yn blaenoriaethu prosesu *SPHNS* a'n cydymffurfiaid ni ein hunain ar Barth Clefyd Craidd 1 (Gogledd a Dwyrain Cymru), lle mae angen gweithredu o fewn chwe mis. Fodd bynnag, gall yr angen am Asesiadau Rheoleiddio Cynefinoedd ar dros hanner y safleoedd - yn sgil statws ACA (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) cysylltiedig afonydd ac ucheldiroedd - beri oedi.

Byddwn yn parhau i fonitro am y clefyd ac yn ymateb i achosion yr adroddir amdanynt. Byddwn yn monitro cynnydd ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru ac yn adrodd ar hyn o'r ail chwarter eleni.

Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd

17. Coch – Cyflwyno ymateb rheoli digwyddiadau effeithiol ac effeithlon.

Rydym wedi gwneud cynnydd gyda'r mesur hwn, ond mae'n parhau i fod yn goch gan fod un o'r 3 is-fesur (ymateb i ddigwyddiadau categori uchel) yn goch ac un yn ambr (cau digwyddiadau). Mae'r rhain yn aros ar lefelau tebyg i'r chwarter diwethaf. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar y trydydd mesur (asesu digwyddiad) sydd i fyny 32% i 98%

ac sy'n wyrdd, gan i ni sefydlu'r broses brysbennu ganolog newydd fel y cynlluniwyd ym mis Ebrill 2019.

Er mwyn deall achos y mesurau coch ac ambr yn llawn, gwnaethom archwiliad manwl o'r data o ychydig feysydd yn ystod mis Gorffennaf 2019 ac rydym wedi nodi nifer o gamau penodol y byddwn yn eu cymryd i wella ein perfformiad. Yn arwyddocaol, nodwyd gwallau adrodd gennym sy'n cam-ystumio'n niweidiol y data a adroddwyd arno oherwydd cyfyngiadau yn fersiwn gyfredol y system recordio ac ansawdd y mewnbwn data. Mae uwchraddiad i'r system wedi'i gynllunio ac wedi ei flaenoriaethu o fewn y rhaglen ddatblygu TGCh ehangach. Rydym wedi datblygu dull amgen o weithio â llaw ac wedi rhoi cyfarwyddiadau clir i'r staff ynghylch sut mae angen mewnbynnu data hyd nes y caiff y diweddariad a gynlluniwyd i'r system ei gyflwyno. At hyn, rydym wedi darparu hyfforddiant ac wedi cyflwyno craffu cyn-adrodd pellach er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei adrodd yn gywir. Nid oedd modd i ni allu cywiro'r ffigurau yr adroddwyd arnynt mewn pryd er mwyn llywio'r adroddiad hwn.

Trwy'r gwaith archwilio, rydym wedi nodi hefyd bod angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd y mesurau hyn a'u bod yn cael blaenoriaeth uwch gan yr holl staff sy'n ymwneud ag ymateb i ddigwyddiadau. Rydym yn parhau i drafod gyda rheolwyr llinell perthnasol ac yn rhagweld gwelliant yn ein perfformiad yn erbyn y mesurau hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

18. Ambr - Cadw asedau rheoli risg llifogydd CNC mewn lleoliadau risg uchel mewn cyflwr gweithredu targed.

Mae ein perfformiad cyfredol yn ambr - sef 97.8% yn erbyn targed o 99%. Mae hwn yn fesur treigl gan fod rhaglen arolygu barhaus ar y gweill a dim ond ar ôl arolygu o bosib y gall asedau ddod i'r amlwg. Mae rhai 'atebion' yn waith cynnal a chadw arferol (e.e. mân waith cynnal a chadw strwythur, torri gwair) ac mae'r rhain wedi eu gwneud. Mae ein gwaith cynnal a chadw arferol hanesyddol wedi cael ei wasgu oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, ac felly rydym bellach yn gweld methiannau, sydd fel rheol yn gofyn am waith(cyfalaf) mwy sylweddol. O'r 77 ased sy'n methu a nodwyd ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod angen buddsoddiad cyfalaf ar 66 ohonynt. Mae'r gwaith hwn wedi'i raglennu.

Rydym yn archwilio'r holl opsiynau er mwyn cadw perfformiad ar y lefelau uchel iawn rydym yn eu targedu (mae 99% yn golygu 34 methiant allan o'r 3,400 o asedau), ac rydym yn bwriadu cynnal adolygiad plymio dwfn mewnol er mwyn asesu hyn. Rydym yn edrych ar opsiynau i ddefnyddio tanwariant mewn mannau eraill i gwblhau datrysiadau. Fodd bynnag, mae darparu adnoddau, cynllunio, rhaglennu a chyflawni gwaith cyfalaf o fewn cyfyngiadau gweddill y flwyddyn ariannol gyfredol yn heriol iawn felly ni fydd y cyfan yn cael ei gwblhau yn yr amserlen. Rydym hefyd yn recriwtio er mwyn mynd i'r afael â swyddi gwag a fydd yn gwella ein gallu i gynllunio'r gwaith.

19. Gwyrdd - Mynd i'r afael ag effaith diwydiant a safleoedd gwastraff.

Ar hyn o bryd rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targedau. Mae'r mesur eleni wedi'i newid er mwyn dangos sut rydym yn ymateb i gydymffurfiaid gwael a dangos ein

bod yn cymryd pob cam priodol, yn hytrach na dim ond mesur rhywbeth nad yw'n llwyr o fewn ein rheolaeth. Bydd ein timau rheoleiddio newydd yn cynllunio eu gwaith rheoleiddio am weddill y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae mwyafrif y timau'n cario swyddi gwag, ac mae llawer o safleoedd yn cael eu trosglwyddo i swyddogion rheoleiddio newydd mewn trefniant pontio rheoledig. Bydd y ffocws am weddill y flwyddyn hon ar ddatblygu sgiliau i ailadeiladu gallu rheoleiddio timau. Bydd adnoddau'n canolbwyntio ar safleoedd risg uchel ac yn cyflawni'r targedau perfformiad. Gan fod gennym 68% o safleoedd â risg tân uchel sydd â chynlluniau ar waith ar hyn o bryd, mae hwn yn faes a fydd yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddiol ym mis Awst.

20. Coch – Cyflawni ein rhaglen 'cyfalaf rheoli risg llifogydd'.

Rydym wedi nodi'r mesur hwn yn goch gan ein bod yn disgwyl sicrhau gwell amddiffyniad ar gyfer 92 eiddo yn y flwyddyn ariannol hon, yn hytrach na tharged o 136. Mae hyn oherwydd oedi i brosiectau adeiladu sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y chwarter hwn. Nid yw Crynant wedi symud ymlaen fel y rhagwelwyd yn wreiddiol ac ni fydd yn cael ei gwblhau eleni. Mae'r gwaith datblygu yn parhau ac mae disgwyl i'r cynllun gael ei gwblhau'r flwyddyn nesaf. Mae cynllun Parc yr Onnen hefyd wedi wynebu oedi eleni, yn bennaf oherwydd lefel yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid gan gynnwys Network Rail, Cwmnïau Cyfleustodau a'r Awdurdod Lleol. Mae'r dyluniad bron wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Er y byddwn yn gwella diogelwch ar gyfer nifer is o eiddo na'r hyn rydym yn ei ddisgwyl eleni, o edrych dros y tymor hwy ac i mewn i 20/21, rydym wedi, a byddwn yn rhagori ar ein targedau. Dros y 3 blynedd diwethaf (19/20, 18/19, 17/18), rydym wedi gwella diogelwch mewn perthynas â 657 eiddo y flwyddyn ar gyfartaledd, ymhell uwchlaw'r targed cyfartalog o 500 ar gyfer y blyneddodedd hynny. Ein cynllun ar gyfer 2020/21 yw y byddwn yn gwella diogelwch yn achos 1,200 o eiddo wrth i gynlluniau cyfredol a newydd gael eu cwblhau.

Mae gwaith arall a ariennir gan gyfalaf yn mynd rhagddo gan gynnwys gwerthuso a chynllunio cynlluniau adeiladu yn y dyfodol; gwaith atgyweirio, cynnal a chadw ac adnewyddu'r cynlluniau presennol; astudiaethau mapio a modelu; gweithredu rheoli llifogydd yn naturiol; a gwella gwytnwch ein rhwydwaith rhybuddio am lifogydd.

Byddwn yn darparu dangosyddion eraill o berfformiad cyffredinol, yn ychwanegol at y mesur hwn, yn y chwarter nesaf i'w hystyried gan y Bwrdd.

Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy cyflawn

21. Gwyrdd - Mynd i'r afael ag effaith llygredd aer.

Ni chofnodwyd unrhyw doriadau sylweddol (Categori 1 neu 2) i ansawdd aer yn y chwarter cyntaf hwn. Rydym wedi cwblhau prosiect sy'n edrych ar allyriadau amonia o ffermio moch, dofednod a gwartheg yng Nghymru y gellir ei ddefnyddio nawr i helpu llywio penderfyniadau polisi ynghylch rheoleiddio'r sectorau hyn. Bydd canlyniadau a dadansoddiad yn cael eu hadrodd yn ôl i Fforwm Rheoli Tir Cymru a byddwn yn

gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu gyrru unrhyw newidiadau deddfwriaethol, os yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen i ni wneud hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Gynllun Aer Glân ar gyfer Cymru yn Hydref 2019. Mae CNC wedi bod yn bwydo i mewn i'r cynllun gan nodi beth y bydd ddiwydiant rheoledig yn debygol o allu ei gyflawni a pha effaith y byddai hynny'n ei gael ar wella ansawdd aer. Bydd CNC yn rhoi sylwadau yn yr ymgynghoriad ac yn helpu i gyflawni'r cynllun; bydd maint ein hymnglymiad yn cael ei bennu gan y llyw o'n Bwrdd ni.

22. Gwyrdd – Datblygu ein cytundeb gweithio ar y cyd gydag lechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru.

Mae Partneriaeth Gweithgaredd Corfforol Cymru yn parhau i wneud cynnydd yn 2019-2020. Mae ganddo bedwar maes blaenoriaeth: Cyfathrebu; Arsyllfa Gweithgaredd Corfforol; Lleoliadau Addysgol; a Chronfa Iach ac Egnïol. Mae papur cwmpasu Arsyllfa Gweithgaredd Corfforol Cymru wedi'i gwblhau ac mae'r Model Rhesymeg Lleoliadau Addysgol (sydd i fod ar gael yn y chwarter nesaf) ar ffurf drafft: bydd y ddau yn cael eu hystyried gan y Grŵp Rheoli ddiwedd mis Gorffennaf 2019. Mae'r grŵp lleoliadau Addysgol eisoes yn gweithio ar fewnbynau a gweithgareddau o'r model hwn. Disgwylir i weithdy mewnwleidiadau cyfathrebu gael ei gynnal ddiwedd mis Gorffennaf 2019. Mae'r gwaith o ddatblygu gweithdy gweledigaeth yn parhau ac mae disgwyl iddo gael ei ddarparu yn yr hydref.

Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol gan ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu niweidio

23. Gwyrdd – Cyflwyno ein rhaglen ynni adnewyddadwy.

Mae ein Rhaglen Ynni Adnewyddadwy yn helpu Cymru i gyflawni agendâu datgarboneiddio a Thwf Gwyrdd Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfrannu at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

Mae ein targedau mesur ar y trywydd iawn. Mae'r targed o 344 MW yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn wedi'i gario drosodd o flynyddoedd ariannol blaenorol ac mae'n cynnwys pŵer gwynt ar y tir a gynhyrchwyd yng Nghefn Croes (58.5MW), Pen y Cymoedd (228MW) a Choedwig Brechfa (57.4 MW). Cyrhaeddir y targed diwedd blwyddyn pan ddaw Clocaenog (96MW) yn weithredol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae ein hallbwn trydan dŵr graddfa fechan o 1.5MW yn cynnwys 19 cynllun sydd wedi dod yn weithredol hyd yma. Mae gennym 0.1 - 0.2MW o gynlluniau trydan dŵr sy'n cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, felly dylid cyrraedd ein targed, sef cyfanswm o 1.7 MW.

24. Gwyrdd - Cyflawni ein cynllun gweithredu taclo troseddau gwastraff.

Rydym wedi adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael i'n helpu i ddeall ble y dylem dargedu ein gweithgareddau orau ac rydym wedi datblygu cynllun gweithredu drafft. Rydym wedi cynnwys partneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac

rydym hefyd wedi trafod ein dull arfaethedig o fynd i'r afael â throseddau gwastraff gyda Bwrdd CNC. Byddwn yn darparu diweddariad cynnydd i Fwrdd CNC mewn 6 mis.

Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

[Nodyn: Fel y gofynnwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, yn achos yr Amcan Llesiant hwn byddwn hefyd yn ychwanegu dau fesur pellach (o gylch 'Cymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' a 'Llesiant, Iechyd a Diogelwch'). Disgwylir cytuno ar ffurf y rhain, a bydd adroddiadau ar gael, yn ystod Chw2]

25. Gwyrdd – Parhau i symud datblygiad y sefydliad yn ei flaen.

Rydym yn parhau i ail-lunio ein sefydliad, a chyrhaeddwyd trobwynt ar ddiwedd y chwarter cyntaf hwn pan lansiwyd ein strwythur diwygiedig.

Bydd gwaith yn parhau dros yr Haf er mwyn gosod yr aelodau staff sy'n weddill yn y strwythur Dylunio Sefydliadol newydd. Byddwn yn parhau i recriwtio ar gyfer pob swydd wag, gan leihau nifer y bobl y mae'r rhaglen newid hon yn effeithio'n andwyol arnynt, a chefnogi pobl yn eu rolau newydd ar yr un pryd. Byddwn hefyd yn gwneud gwaith i baratoi ar gyfer cau'r Rhaglen waith Dylunio Sefydliadol yn ffurfiol a symud datblygiad ein Cynllun Gweithlu Strategol yn ei flaen.

26. Ambr - Gweithredu'r argymhellion ar gyfer rheoli ein gwerthiannau coed.

Business Benchmarking (Pulse and external surveys)	milestone			x	x
Establishment of Customer Involvement Forum	milestone				x
Development of 3 year Transformational Plan	milestone				x
Increased Customer Involvement – developing and testing	measure			x	
Actions and activities to ensure right first time	measure				x
Increased Satisfaction (experience)	measure				x

Key: Green = target met. Amber = close to target (within a month). Red = Off target (beyond a month). Reporting each quarter will relate to completion/continuation of milestones in that quarter. Lowest reported target line position will be reflected as the overall measure position

Contact: Ceri Davies

Are we meeting the target/s?

- Delivery is currently on track against the milestones and targets outlined above. A specialist monitoring and evaluation task and finish group was commissioned by the Customer Programme Board to develop the programme evaluation framework and ensure that good quality sustainable mechanisms to capture, analyse and report insights across the business are established.
- The group includes membership from the Institute of Customer Service, Corporate Governance, Evidence and ODPM and a key focus of their next meeting in September will be to develop the content and design of the staff pulse surveys which will run in Q3. These surveys will provide baseline information and quality data to assess progress against the actions. Specifically, the activities to ensure right first time target progress can be tracked and used to inform business planning prioritisation of resources.
- By the end of September, the Customer Dashboard will include key web performance metrics and ‘right first time’ and ‘increased satisfaction’.
- Basic standards have been published and are being rolled out across the business. Tone of voice training workshops have been delivered through 17 sessions to over 182 staff.
- First draft of documents required to support the Customer Involvement Forum have been consulted upon internally. These cover GDPR and privacy statements. Recruitment to a new specialist engagement officer will take place in Q3 who will be responsible for establishing the Customer Involvement Forum by end March 2020 utilising existing networks forums and listening groups from across the business, as well as drafting a long term engagement framework proposal for consideration by the business. This proposal will be developed thorough extensive consultation to ensure integration across business areas where stakeholder and engagement plays a vital role (e.g. Grant Thornton, Area Statements, Commercial and wider Ops activities such as environmental management and flood risk etc).
- However, in order to deliver the strategy’s aspirations, and demonstrate improvements to customer satisfaction at the scale required, all of the 13 projects in the programme need to be delivered.
- A key risk for the programme has been the capacity from the business to take on ownership required to embed the programme and projects.
- At their July meeting the Customer Programme Board discussed this risk and agreed;
 - to focus efforts on the 6 projects required to establish the basics (these cover web improvements, service standards, ICT Infrastructure and customer hub transformation).
 - to extend the programme timeframe (detail of which will be presented through the proposed 3 year transformational plan due in Q4)
 - to an unfunded pressures bid which will provide additional programme resources which would be deployed based on identified need across the business. These include specialist web user needs analysis, web design and content management, engagement, project management and business

analysts. They would provide interim support in key areas to progress the projects whilst the new teams and departments are being established under OD.

- However, long term commitment to own and embed the programme and projects against competing organisational priorities remains a significant risk.

What are we doing next?

- Recruitment is our next priority as the programme resources will be essential in ensuring that the projects maintain pace and can deliver during Org Development and where possible for the next phase of Brexit.
- Recruitment to specialist communications posts will enable us to increase awareness of the programme and benefits and target more at middle management level which will ensure that the programme and projects are driving change at the right levels of the organisation, increasing quality of interactions in a way that will be sustainable and become business as usual. For example, we are developing training and accreditation opportunities in conjunction with leads for org development, business support and corporate planning.
- We will continue to promote, support and challenge ourselves internally to increase customer involvement at the earliest point of service, product and process design, to ensure that all of our work is being based on current user led evidenced needs.
- We will establish customer champions and accreditation opportunities for staff to ensure that the values and behaviours set out in the customer strategy are aligned and integrated with #teamNRW day and rewards and recognition work to assist in establishing the #team NRW culture.
- We will step up our work with external organisations and specialists to ensure that we are learning adapting and improving our approaches from their best practice, insights and experience.

What have we changed to embed SMNR? (...and were any barriers identified?)

The programme is new so will not be a change, but it will emphasise early investment of time to secure meaningful involvement and engagement with stakeholders. Investing this time at this early stage of the programme and getting the basics right will ensure that others become advocates for our work, enabling us to deliver more through others, increasing and embedding SMNR across Wales.

Communicating the programme and benefits to internal and external customers is always challenging and sometimes a barrier to success. To counteract this, we use insights we gather from a whole range of customers, along with the evidence we have on what works will allow us to tackle this challenge and continually improve our messages, communications and ultimately engagement practice.

How have we applied the 9 SMNR principles?...

See above and below.

...and in doing so, how have we applied the sustainable development principle (five ways of working)?

- Delivering the programme and 13 projects will increase quality of service and build relationships with customers. This is **preventative** as smarter use of customer insights will assist in earlier identification and mitigation of complaints and reputational issues.
- The programme is focussing on establishing the basics – taking time to ensure that standards and quality of future delivery and interactions are consistently high. The Programme Board's decision to approve short term resources and a longer term transformational proposal allows us time to deliver, but also to pilot, assess and design sustainable interventions for the **long term** without the pressure to deliver a set of projects that may deliver 'quick wins' but are not sustainable or demonstrate impact as part of business as usual.
- The programme will increase awareness and appreciation across NRW of who our customers are. Specific customer journey mapping training will help identify interactions with them will increase **involvement**.
- **Integrated** joint training opportunities which focus on customer improvements (the public in Wales) will foster closer working relationships with other public bodies who are one of our key customer groups. Our customer

charter will be developed in conjunction with these groups. This will result in greater awareness of our roles and responsibilities and others becoming advocates who help deliver our SMNR messages.

- Better engagement (internally and externally) and awareness across the business of how to achieve genuine customer representation from all of our customer groups will increase involvement and establish greater **collaboration** trust and long term relationships. The Customer Involvement Forum will play a key role in this.

Papur y Bwrdd

Teitl y papur:	Ysgogwyr polisi morol: Y diweddaraf ar gyd-destun strategol gwaith morol ac arfordirol Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeirnod y papur:	Papur 19-09-B16
Noddwyd y papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y papur gan:	Rhian Jardine

Diben y papur:	Trafodaeth
Argymhelliad:	- Nodi ehanger yr ysgogwyr polisi allweddol ar gyfer gwaith morol Cyfoeth Naturiol Cymru a chyflymder y datblygu a'r newid - Nodi'r gwaith gweithredol i integreiddio'r gwaith o gyflawni ar draws y sawl ysgogwr er mwyn creu un rhaglen gydlynol o waith morol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, o fewn fframwaith polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru - Nodi'r angen i fynd i'r afael â lleihau'r gwaith o gynhyrchu ynni carbon, goblygiadau'r gwaith o gyflawni hyn a'r gwaith sydd ar y gweill o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn. - Mae gan y Bwrdd rôl gynghori ar drafodaethau Cyfoeth Naturiol Cymru â Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â strategaeth fuddsoddi'r dyfodol ar gyfer gwaith morol, yn enwedig o ran yr agendâu gwydnwch ecosystemau a datgarboneiddio. - Cynghori ar unrhyw feysydd eraill o gynnydd y mae'r Bwrdd yn dymuno cael ei hysbysu amdanynt, ar draws y meysydd gwaith a drafodwyd.

Effaith:	Edrych i'r <u>hirdymor</u>: nod yr ysgogwyr polisi allweddol a osodir yn y papur yw mynd i'r afael â'r gwaith hirdymor o reoli'r amgylchedd morol yng Nghymru yn gynaliadwy. Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>: mae'r papur yn nodi sut mae meysydd gwaith allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru
----------	--

	wedi'u hintegreiddio er mwyn creu un rhaglen gyflawni integredig i fynd i'r afael â'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y môr ac ar draws y rhyngwyneb arfordirol. Cynnwys <u>amrywiaeth o'r boblogaeth</u>: aeth ehangder y gwaith morol i'r afael â rhyngwynebau ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr morol (grwpiau diddordeb, masnachol a hamdden) a chymunedau arfordirol. Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>: mae gweithio mewn ffordd gydweithredol wrth galon yr holl feysydd gwaith yr eir i'r afael â nhw ac yn ganolbwynt i'r Datganiad Ardal, sy'n dod â chyfleoedd a heriau allweddol ynghyd. <u>Atal problemau rhag codi</u>: mae'r holl feysydd gwaith yn gymysgedd o weithredu ymatebol ac ataliol sy'n cynnwys gwaith cynllunio hirdymor i atal problemau rhag codi.
--	---

Mater

1. Diben y papur hwn yw rhoi trosolwg i'r Bwrdd o'r amrywiaeth o ysgogwyr alledol a datblygiadau sylweddol yn y cyd-destun polisi, ar gyfer gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoli'r amgylchedd morol yn gynaliadwy.
2. Mae'r papur, yn enwedig, yn ceisio tynnu sylw'r Bwrdd at gyfleoedd a heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni gwaith datblygu ynni adnewyddadwy graddfa fawr ar y môr, sydd ei angen i ddiwallu blaenoriaethau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Cefndir

3. Mae 43% o diriogaeth Cymru, sy'n ymestyn i'r ffin diriogaethol 12 o filltiroedd môr, yn amgylchedd morol (gweler Atodiad 1). Yn ogystal â hynny, mae gan Lywodraeth Cymru awdurdodaeth ar gyfer cynllunio, pysgodfeydd a chadwraeth natur yn yr ardal ar y môr sydd y tu hwnt i'r 12 o filltiroedd môr i'r ffin ganol â gweinyddiaethau cyfagos, ac mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru swyddogaethau rheoliadol penodol yn yr ardal hon ar y môr.
4. Mae diben Cyfoeth Naturiol Cymru a'n prif swyddogaethau statudol yr un mor berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr amgylchedd morol ag y maent ar y tir. Mae'r amrywiaeth eang o swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru o ran yr amgylchedd morol yn cwmpasu, er enghraifft: cyngor, tystiolaeth, rheoleiddio, ymateb i ddigwyddiadau a rheoli uniongyrchol. Darperir manylion pellach yn Atodiad 2. Rydym yn llywodraethu ein gwaith morol yn Cyfoeth Naturiol Cymru trwy un Bwrdd Rhaglen Forol integredig a rhaglen waith gysylltiedig, sydd bellach ar ffurf Cynllun Lleuedd a Gwasanaeth Morol ar y cyd. Trwy gynllun y sefydliad, mae'r gwaith morol wedi'i gyfuno, wrth i'r rhaglen forol unigol barhau i integreiddio'r Gwasanaeth Gweithrediadau Morol newydd a gwaith swyddogaethau morol y gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu sydd wedi'i hailddylunio.

5. Mae fframwaith deddfwriaethol a pholisi unigryw yn llywodraethu'r gwaith o gynllunio a rheoli'r amgylchedd morol, gan gynnwys deddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth a ddaw o'r UE sy'n ymwneud â gwaith morol. Ceir darlun o'r berthynas rhwng trefniadau rheoli a chynllunio Cymru gyfan, daearol a morol yn Atodiad 3.
6. Mae gweithgaredd dynol wedi effeithio ar yr amgylchedd morol dros ganrifoedd. Er gwaethaf yr heriau presennol y mae hyn yn eu peri, mae moroedd Cymru'n parhau'n amgylchedd hynod amrywiol a dynamig sy'n cynnwys adnoddau a all gynnig buddion cynaliadwy pellach i gymdeithas er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion critigol, megis newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.
7. Mae'r asesiad isod yn mynd i'r afael â rhaid o'r newidiadau ac ysgogwyr mwyaf sylweddol o ran cynllunio a rheoli'r amgylchedd morol yn gynaliadwy sut rydym ni, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ymateb.
8. Yn enwedig, mae'r angen i fynd i'r afael â bygythiad newid hinsawdd a'r cynnydd o ran sicrhau economi carbon isel wedi arwain at raglenni datgarboneiddio uchelgeisiol gan y Llywodraeth. Mae adnoddau naturiol Cymru'n cynnig potensial gwych i greu ynni o'r amgylchedd morol, o ystyried maint adnoddau'r tonnau, y llanw a'r gwynt yng Nghymru. Mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan ei gefnogaeth gref dros greu ynni adnewyddadwy ar y môr, yn enwedig ynni morol (tonnau a llanw) a darperir cyllid sylweddol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ddatblygwyr ynni morol. Felly, mae lefel uchel o ddiddordeb polisi mewn datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr o fewn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n awyddus i greu mwy o ffermydd gwynt ar y môr, a thechnolegau trosi ynni o ran ffrydiau tonnau a llanw ac ystod y llanw. Mae cyfuno swyddogaethau rheoliadol a chynghorol yn golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru ar flaen y gad o ran cyflawni agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, wrth sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, gan fynd i'r afael â dirywiad ecosystemau.

Asesiad

Fframwaith Cynllunio ar gyfer Moroedd Cymru

9. Y datblygiad mwyaf sylweddol yn ein gallu i reoli'r amgylchedd morol yn gynaliadwy yw'r trefniant cynllunio morol strategol newydd. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cael ei lunio yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Diben statudol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw llywio'r gwaith o ddatblygu ardal forol Cymru mewn modd cynaliadwy. Mae'n cwmpasu dyfroedd glannau Cymru (o bistyll penllanw cymedrig i 12 milltir forol) a dyfroedd morol (y tu hwnt i 12 milltir forol).
10. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cefnogi defnydd cynaliadwy drwy amlinellu sut y dylai cynigion yn ymwneud ag ardal forol Cymru gael eu hystyried gan wneuthurwyr penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus. Felly, bydd y polisïau yn y cynllun, unwaith y cânt eu mabwysiadu, yn ystyriaeth statudol yng nghyngor a phenderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn enwedig yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer cyngor ar waith achos morol a phenderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddyfarnu trwyddedau morol.

Integreiddio rhwng Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynllunio morol

11. Wrth gefnogi dull o ddatblygu'r amgylchedd morol yn gynaliadwy ar sail ecosystemau, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n ceisio integreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
12. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cadarnhau bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn fecanwaith allweddol i ddatblygu'r egwyddorion perthnasol a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol ar gyfer yr ardal forol ac arfordirol. Ymhlith y polisiau yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau o fewn y Polisi Adnoddau Naturiol cyfredol, er enghraifft, mae polisi sy'n ymwneud â mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd, cynyddu ynni adnewyddadwy; sicrhau'r buddion mwyaf posibl ar gyfer cymunedau arfordirol a chefnogi dull rheoli integredig dros y rhyngwyneb tir-môr.
13. Bydd y datganiad ardal morol hefyd yn hybu'r gwaith o gyflawni Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru drwy ddarparu tystiolaeth i gefnogi cyngor a phenderfyniadau, fel y gellir gweithredu polisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn well. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y datganiad ardal morol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd yn gyfleoedd allweddol i wella'r gwaith o integreiddio â systemau rheoli tir a chynllunio'r defnydd o dir.

Gweithredu polisi'r cynllun morol

14. Disgwylir mabwysiadu'r cynllun yn yr hydref. Mae nifer o ffrydiau gwaith wedi'u hymgorffori ar draws rhaglen forol Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n sicrhau ein bod yn barod i weithredu'r cynllun a gwneud y gorau o'r cyfleoedd strategol y mae'n eu darparu. Adnodd allweddol ar gyfer gweithredu fydd cyfres briodol o ganllawiau er mwyn cynorthwyo staff Cyfoeth Naturiol Cymru i ddechongli a gweithredu polisi'r cynllun yn ein prosesau cynghorol a rheoliadol, ac i hysbysu a chynghori ein partneriaid a'n cwsmeriaid.
15. Rydym eisoes yn gweithio ar ganllawiau perthnasol. Un o themâu allweddol y cynllun, sydd hefyd wedi'i hamlygu yn llythyr cylch gwaith 2019-20 ac mewn trafodaethau diweddar â gweinidogion Cymru o ran ynni adnewyddadwy morol, yw cymesuredd. Wrth ymateb, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu prosiect – y Fframwaith Cyngor Morol – sy'n datblygu pecyn o egwyddorion, prosesau a threfniadau llywodraethu er mwyn hybu cyngor cymesur a chysn ar draws ein strwythurau newydd, ynghyd â chanllawiau a hyfforddiant i'r staff morol perthnasol.
16. Un o'r tasgau cyntaf o dan y Fframwaith Cyngor Morol oedd datblygu egwyddorion cyngor morol er mwyn cyfleu'r ffordd y caiff cyngor morol ei ddarparu (gweler Atodiad 4). Mae'r egwyddorion wedi'u mabwysiadu gan Fwrdd y Rhaglen Forol a'u rhannu â rhannau perthnasol eraill o Cyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys yr adrannau rheoleiddio, cynllunio datblygu a pholisi Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae'r

egwyddorion wedi'u rhannu mewn ffordd a fydd yn ein helpu i ddatblygu canllawiau, hyfforddiant, dulliau llywodraethu a phrosesau mwy manwl fel y bo angen, er mwyn sicrhau y gallwn weithredu'r egwyddorion yn ein gwaith.

Ynni adnewyddadwy ar y môr

17. Un maes lle mae gweithredu polisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn arbennig o berthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â phenderfyniadau a chynghor cymesur a lle mae potensial gwirioneddol am dwf cynaliadwy, yw ynni adnewyddadwy ar y môr.
18. Mae ynni adnewyddadwy ar y môr – gwynt, tonnau a llanw – yn faes y mae lefel y diddordeb ynddo o ran gwleidyddiaeth, y cyhoedd a pholisi yn cynyddu. Mae nodau datgarboneiddio uchelgeisiol, symud tuag at economi carbon isel a datgan “argyfwng hinsawdd” oll yn ysgogwyr. Felly, mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i greu mwy o ynni adnewyddadwy ar y môr ac wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru, trwy ein llythyr cylch gwaith ar gyfer 2019-20, i ystyried cyfleoedd i greu ynni adnewyddadwy morol gan ganiatáu i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau ynni Llywodraeth Cymru.
19. Mae'n amlwg bod cyfleoedd i Cyfoeth Naturiol Cymru wella ein rôl yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth fynd ati'n weithredol i gefnogi nodau datgarboneiddio. Mae hyn yn creu sawl mantais, sef hybu nodau llesiant trwy greu ynni glanach, a'r potensial economaidd ehangach y bydd ymestyn y sectorau hyn yn ei greu.
20. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn rhoi cymorth sylweddol i'r Llywodraeth a'r diwydiant i ddatblygu'r gwaith o greu adeiledd ynni adnewyddadwy ar y môr.
 - Trwy gymryd rhan ar gam cynnar yn y gwaith o gynllunio datblygiad ynni adnewyddadwy, trwy er enghraifft, asesiadau strategol o gynlluniau Ystad y Goron ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y môr, gall Cyfoeth Naturiol Cymru helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r meysydd hyn lle mae risg amgylcheddol a risg caniatâd ar eu hisaf.
 - Ar lefel y prosiect, mae'r prosesau caniatáu y mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgymryd â nhw'n gymhleth ac, yn aml, bydd angen llawer o adnoddau. Felly, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio i sicrhau bod y gweithdrefnau caniatáu ac asesu mor effeithlon â phosibl ac y cânt gymaint o gefnogaeth â phosibl. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu Gwasanaeth Morol sy'n darparu cymorth cydlynol ac effeithlon i ddatblygwyr a'r sawl sy'n penderfynu, ac rydym yn cryfhau ein swyddogaethau trwyddedu morol er mwyn paratoi at y cynnydd mewn ceisiadau i'r prosiect yr ydym yn disgwyl eu cael.
 - Mae bylchau sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy morol, sy'n arwain at ansicrwydd a all niweidio'n ddifrifol ar benderfyniadau effeithiol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan mewn mentrau tystiolaeth strategol sy'n ceisio llenwi'r bylchau tystiolaeth allweddol trwy hybu rhaglenni tystiolaeth mawr, megis yr *Offshore Renewables Joint Industry Programme* a rhaglen *Enabling Actions* Ystad y Goron.
21. Er hynny, mae'r gwaith o greu ynni adnewyddadwy ar y môr yn parhau'n heriol o ran caniatâd, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ymchwilio i ffyrdd o wella l efel y gwasanaeth y gallwn ei ddarparu. Mae'r gwaith o gyflwyno gwelliannau lefel

gwasanaeth wedi cael ei lywio, yn rhannol, gan ddysgu o brofiad mewn mannau eraill, yn enwedig yn yr Alban. Mae'r Alban wedi cael strategaeth hirdymor a blaengar ar gyfer buddsoddiadau morol ac mae hyn wedi galluogi gwelliannau sylweddol ac amserol yn y gwaith o gyflawni. Y canlyniad fu llu o fecanweithiau cymorth ychwanegol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr, er enghraifft, gweithdrefnau trwyddedu pwrpasol, canllawiau a rhaglenni ymchwil a thystiolaeth uchelgeisiol sy'n cynorthwyo datblygwyr trwy gymhlethdodau'r weithdrefn ganiatáu ac asesu.

22. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried y cyfleoedd a heriau hyn yn fanwl yn ddiweddar gyda Llywodraeth Cymru, Gweinidogion a chynrychiolwyr y sector ac, o ganlyniad, rydym yn datblygu rhaglen uchelgeisiol er mwyn gwella ein gallu yn y maes gwaith hwn.
23. Mae profiad yr Alban yn dangos y bydd strategaeth fuddsoddi'n hanfodol i lwyddiant y rhaglen hon ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cynnig sylweddol am adnoddau er mwyn gwella'r capasiti sydd gennym i'w ymrwymo i'r maes gwaith hwn.
24. Mae trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynnig yn mynd rhagddynt, ond defnyddir yr adnoddau ychwanegol, os cânt eu cymeradwyo, i gryfhau holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â'r gwaith hwn. Bydd hyn yn arwain at fwy o gapasiti i'r timau cynllunio, trwyddedu a chynghori technegol sy'n rhoi cyngor ar gynlluniau a cheisiadau. Bydd yn gwella'r capasiti ar gyfer gwaith tystiolaeth ac arweiniad strategol a rheolwr y rhaglen, a fydd yn hwyluso'r broses o graffu ar y gwaith gan y Bwrdd Busnes ac yn cydlynu'r gwaith o gyfathrebu a chydweithio â'r llywodraeth, datblygwyr a rhanddeiliaid eraill.

Y datganiad ardal morol

25. Un o'r saith datganiad ardal y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddatblygu yw datganiad ardal morol. Mae'r datganiad ardal hwn yn cwmpasu'r ardal o'r penllanw i'r cyfyngiad tiriogaethol o 12 o filltiroedd morol. Mae proses gyffredinol y datganiad ardal hefyd yn fodd o fynd i'r afael â phroblemau ar y tir sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol, felly rydym yn ceisio integreiddio'r holl ddatganiadau ardal, ar hyd yr arfordir ac wrth fynd i'r afael â materion y dalgylch i'r môr.
26. Mae'r datganiad ardal morol yn gyfle allweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru integreiddio ein hystyriaeth, gyda phartneriaid, o'r holl risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy yr aethpwyd i'r afael ag ef ar draws ehangder y fframwaith deddfwriaethol a pholisi morol cyfredol. Rydym wedi nodi tair thema i fynd i'r afael â nhw, fel a ganlyn:
 - Adeiladu gwydnwch ecosystemau morol
 - Hybu'r gwaith o weithredu cynlluniau morol (gweler uchod)
 - Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ac ymaddasu yn y parth arfordirol
27. Mae swm sylweddol o waith perthnasol o dan y themâu hyn eisoes yn mynd rhagddo. Felly, ffocws allweddol ar gyfer y datganiad ardal morol fydd *sut* rydym yn gweithio. Rydym yn bwriadu dod i gyd-ddealltwriaeth ar faterion, cyd-berchenogaeth

ar ddatrysiadau a meithrin cydberthnasau gweithio ar y cyd y gellir ymddiried ynddynt er mwyn mynd i'r afael â'r datrysiadau a gytunwyd ar y cyd.

Adeiladu gwydnwch ecosystemau morol

28. Trwy'r thema hon yn y datganiad ardal morol, rydym am ymchwilio i sut y gallwn ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn a gwella cyflwr ecosystemau morol. Yng Nghymru, mae gennym rwydwaith cynhwysfawr o 130 o ardaloedd morol gwarchodedig unigol sy'n cwmpasu 69% o foroedd tiriogaethol a 50% allan i'r ffin ganol (gweler Atodiad 5). Mae'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru, a gaiff ei reoli'n effeithiol, yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o adeiladu gwydnwch yr amgylcheddol morol yn ei gyfanrwydd.
29. Mae amryw ofynion deddfwriaethol, yn ogystal ag ymrwymïadau polisi llywodraethol cysylltiedig, er mwyn creu rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynol ac a gaiff eu rheoli'n dda. Yn eu tro, mae'r rhain yn ysgogwyr sylweddol ar gyfer gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, mae rhanddeiliaid a Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu'n sylweddol ar y gwaith o reoli'r ardaloedd morol gwarchodedig. Er enghraifft, ym mis Mehefin eleni, gwnaeth Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ailedrych ar ei argymhellion o'r ymchwiliad i'r gwaith o reoli ardaloedd morol gwarchodedig yn 2017. Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar. Rydym wrthi'n aros am ei adroddiad.
30. Canolbwynt gwella'r gwaith o reoli ardaloedd morol gwarchodedig yw Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru a'r cynllun gweithredu blynyddol ategol. Cafodd hyn ei ddatblygu gan grŵp llywio Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru, sef grŵp dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif awdurdodau rheoli ardaloedd morol gwarchodedig statudol yng Nghymru, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rôl allweddol yn y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu. Rydym yn canolbwyntio ar ddeall y pwysau allweddol ar draws rhwydwaith yr ardaloedd morol gwarchodedig, ac yn mynd i'r afael â nhw, er mwyn mynd i'r afael â gwydnwch yn yr amgylcheddol morol, gan gydnabod bod angen gweithio gyda dull system gyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion fesul safle.

Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ac ymaddasu yn y parth arfordirol

31. Mae'r rhyngwyneb arfordirol yn her arbennig. Dyma'r ardal lle mae nifer o drefniadau cynllunio a threfniadau rheoliadol yn cwrdd. Yn ogystal â hynny, dyma ardal lle mae effeithiau newid hinsawdd ar eu mwyaf difrifol yn sgil cynnydd yn lefel y môr a'r wasgfa arfordirol gysylltiedig lle collir cynefinoedd sy'n gallu darparu amddiffynfeydd naturiol i'r cynnydd yn lefel y môr o flaen traethlinau sefydlog a warchodir. Mae llawer o botensial i ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur i ymaddasu ar yr arfordir ac enciliad a reolir o amddiffynfeydd. O ganlyniad, mae'r thema hon yn flaenoriaeth yn y Polisi Adnoddau Naturiol a'r datganiad ardal morol, lle rydym yn cydnabod yr angen critigol i weithio gyda chymunedau arfordirol a pherchenogion tir ac asedau.

32. Mae Gweithgor Arfordirol Sefydlog Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod ag amryw swyddogaethau cynghori, strategaethau perygl llifogydd a swyddogaethau rheoleiddiol ynghyd er mwyn mynd i'r afael ag ymaddasu arfordirol mewn modd integredig.

Brexit a'n Moroedd

33. Wrth edrych ymlaen, mae Brexit yn peri sawl risg o ran rheoli'r amgylchedd morol a'i ddefnyddio'n gynaliadwy. Mae'r materion allweddol yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd morol a disodli'r fframwaith Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
34. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad "Brexit a'n Moroedd", sy'n bwriadu llywio dyfodol moroedd a physgodfeydd morol Cymru ar ôl Brexit.
35. Mae'r prif bwyntiau yn ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad yn nodi 'r canlynol:
- Mae'r fframwaith cynllunio morol domestig a ddarperir gan y fersiwn gyntaf o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn hollbwysig i sicrhau y caiff ein moroedd eu defnyddio'n gynaliadwy, yn enwedig yng nghyd-destun gadael yr UE.
 - Mae'r fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu morol cyfredol a'r safonau amgylcheddol yn hollbwysig i gyflawni'r weledigaeth o foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.
 - Hefyd, mae cyfleoedd i greu system rheoli pysgodfeydd morol yng Nghymru sy'n fwy hyblyg, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy seiliedig ar ecosystemau, ond mae hynny'n rhannol ddibynnol ar sicrhau'r deddfwriaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru.
36. Wrth i oblygiadau penodol Brexit ddod i'r amlwg, byddwn yn parhau i gynghori er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau fframwaith cynaliadwy ar ôl gadael yr UE.

Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru

37. Mae'r angen am dystiolaeth er mwyn ategu ein swyddogaethau rheoleiddio a chynghori morol yn berthnasol i'r holl feysydd gwaith ac ysgogwyr uchod. Ym mis Gorffennaf eleni, cymeradwywyd Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru gan Fwrdd Rhaglen Forol Cyfoeth Naturiol Cymru. Datblygwyd y strategaeth hon ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r anghenion tystiolaeth strategol, blaenoriaethol er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni amcanion polisi'r llywodraeth ar gyfer ardal forol Cymru, gan gynnwys yr holl ysgogwyr allweddol yr eir i'r afael â nhw yn y papur hwn.
38. Bydd y strategaeth bellach yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhaglen dystiolaeth forol Cyfoeth Naturiol Cymru, sef y gwaith a wnawn ein hunain a'r gwaith a wnawn mewn partneriaeth ag eraill.

Argymhellion

39. Argymhellir y dylai'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Nodi ehanger y cyd-destun polisi allweddol ar gyfer gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru a chyflymder y datblygu a'r newid.
- Nodi'r gwaith gweithredol i integreiddio'r gwaith o gyflawni ar draws y sawl ysgogwr er mwyn creu un rhaglen gydlynol o waith morol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, o fewn fframwaith polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.
- Nodi bod gan y datganiad ardal morol ran sylweddol i'w chwarae er mwyn hybu cyfleoedd datblygu morol cynaliadwy.
- Nodi'r angen i fynd i'r afael â lleihau'r gwaith o gynhyrchu ynni carbon, goblygiadau'r gwaith o gyflawni hyn, gan gynnwys yr angen am fuddsoddiad sylweddol a'r gwaith sydd ar y gweill o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn.
- Cynghori ar drafodaethau Cyfoeth Naturiol Cymru â Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â strategaeth fuddsoddi'r dyfodol ar gyfer gwaith morol, yn enwedig o ran yr agendâu gwydnwch ecosystemau a datgarboneiddio.
- Cynghori ar unrhyw feysydd o gynnydd y mae'r Bwrdd yn dymuno cael ei hysbysu amdanynt, ar draws y meysydd gwaith a drafodwyd.

Risgiau allweddol

40. Caiff risgiau ar draws y rhaglen waith eu nodi, eu hasesu a'u rheoli gan Fwrdd Rhaglen Forol Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyma rai o'r risgiau cyffredinol sy'n ymwneud â chyflawni yn erbyn yr ysgogwyr allweddol:

- Ein gallu i integreiddio polisi'r cynllun morol yn ein cyngor a'n penderfyniadau mewn modd amserol ac effeithiol unwaith y mabwysiadir Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Codi gobeithion ynghylch lefel uwch o gymorth ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr a'r angen am fuddsoddiad sylweddol er mwyn bodloni'r raddfa'r a'r chyflymder sydd eu hangen i ddiwallu dyheadau Cymru.
- Craffu parhaus ar feysydd gwaith penodol yn niweidio ymdrechion i gyflawni
- Yr angen i ddod i ddealltwriaeth ar y cyd gyda phartneriaid ynghylch yr ymateb priodol i bwysau ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy

Y camau nesaf

41. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i reoli'r rhaglen strategol o waith morol mewn modd integredig trwy Fwrdd y Rhaglen Forol a'r rhaglen waith gysylltiedig, sydd bellach ar ffurf y Gwasanaeth Morol a'r Cynllun Lleoedd.
42. Gellir tynnu sylw'r Bwrdd at gerrig milltir, llwyddiannau a materion allweddol o ran cyflawni'r fframwaith rheoli a chynllunio morol strategol, yn ôl y gofyn.
43. Bydd trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynnig am adnoddau i wella ein gwaith o greu ynni adnewyddadwy ar y môr yn parhau.

Goblygiadau ariannol

44. Mae'r gwaith a amlinellir yn y papur yn crynhoi cyd-destun polisi ein gwaith morol. Mae hyn yn nodi'r goblygiadau ariannol ar ein cyfer ni a gofynion buddsoddi ehangach i hybu uchelgeisiau o'r adnoddau morol a chyflymder y newid er mwyn cyflawni'r dyhead.
45. Mae problemau o ran capasiti â rhai o'r meysydd gwaith, yn enwedig argaeledd tystiolaeth, a'n gallu a capasiti ein hunain i hybu ein rôl mewn datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr. Mae'r gofynion hyn wrthi'n cael sylw mewn cais am gyllid i Lywodraeth Cymru. Mae trafodaethau â Llywodraeth Cymru'n parhau.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

46. Nid oedd angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.


Mynegai o atodiadau

- Atodiad 1: Ardal forol Cymru ar y glannau ac ar y môr
- Atodiad 2: Cylch gwaith morol Cyfoeth Naturiol Cymru
- Atodiad 3: Y berthynas rhwng trefniadau cynllunio a rheoli ledled Cymru
- Atodiad 4: Egwyddorion cyngor morol Cyfoeth Naturiol Cymru
- Atodiad 5: Ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru

Annex 1: Welsh Inshore and Offshore Marine Area

The inshore region in the map equates to the Welsh territorial waters, out to 12 nautical miles.

The offshore region represents the Welsh offshore zone out to the mid-line with neighbouring administrations. In this area, Welsh Government has jurisdiction for nature conservation, fisheries management, marine planning and some regulatory functions, with some of those regulatory functions being carried out by NRW.



Annex 2: NRW's Marine Remit

NRW has an extensive statutory marine remit covering territorial seas to 12 nm. Elements of marine work are embedded within all of NRW's functional areas, the most significant ones being advice, evidence and regulation. Further details are provided in the table below.


Within these broad functions, NRW also has a significant number of specific statutory functions that only apply in the marine environment. a few examples include: regulatory body for marine licensing (the broad equivalent of planning permission at sea); advice on designation and management of European marine sites and Marine Conservation Zones; delivery of key elements of the Marine Strategy Framework Directive; and advice on dispersant use in marine pollution incidences.

Key: **Dark grey shaded** activities have a direct statutory basis;
Light grey shaded activities are *in support* of delivery of statutory functions.

Categories of Activity	Examples of specific statutory functions (Note: this column is illustrative only, it is not an exhaustive list)
1. Technical and statutory advice to Welsh and UK Government, and EU on all marine legislation, plans, programme, strategies and assessments as they relate to Wales	• e.g. Statutory nature conservation advisor to Govt out to 12 nautical miles
2. Technical advice to others (not Govt) on marine plans, programme, strategies and assessments	• e.g. Advice to management authorities on conservation objectives and operations/activities for European marine sites and Marine Conservation Zones (MCZs)
3. Statutory consultee for planning, permits and nationally significant infrastructure projects; cradle to grave service	As activity. Includes consultee on some marine-specific authorisations.
4. Environmental planning - internal and external	• Production of River Basin Management Plans
5. Internal advice and guidance on 1-4 above.	
6. Marine licence determination and compliance	As activity
7. Other licences/permits (e.g. Sites of Special Scientific Interest (SSSI), protected species licence, Environmental Permitting Regulations etc.)	• European Protected Species licence (numerous marine EPS) • Radioactive materials/ship breaking out to 12nm • Regulating land-based discharges and pollution incidents out to 3nm
8. Direct fisheries management	• Regulating authority for Dee Estuary and Burry Inlet cockle fishery regulating order • Regulation of migratory fisheries out to 6nm
9. Harbour, navigation and lighthouse authority	• Dee conservancy function
10. Designation of, consents and assent for SSSI	As activity
11. Sample, measure, monitor and survey	• Water Framework Directive (WFD) monitoring • Bathing Waters monitoring
12. Data interpretation, assessment and modelling	
13. Statutory reporting – both NRW's, and in support of Government	• Marine input to SoNaRR • Habitats Directive Article 17 reporting in support of Govt duty • WFD

Categories of Activity	Examples of specific statutory functions (Note: this column is illustrative only, it is not an exhaustive list)
	• Marine Strategy Framework Directive reporting in support of Govt duty
14. Develop the evidence base to support Government and NRW programme delivery, alone and in partnership	
15. Data management	
16. Coastal flood risk planning and management	• Provision/maintenance of some sea defences
17. Respond to and advise on marine pollution incidences, and forward plan response	• Statutory advisor on the use of chemical dispersants in marine pollution incidents
18. Marine Conservation Zone direct management	
19. Work in partnership with stakeholders; develop relationships and partnerships; enabling others	
20. External funding and grants	

Annex 3: The relationship between planning and management regimes across Wales



The Natural Resources Policy extends across Wales out to 12nm and informs the content of the Welsh National Marine Plan. The NRP confirms the marine plan as a key mechanism to deliver the national priorities in the NRP in the marine area. The marine plan contains many high-level policies relating to the sustainable management of marine natural resources, in addition to some spatial policies for certain sectors/marine resources.

Similarly, on land the NRP informs the National Development Framework and Planning Policy Wales. The terrestrial planning framework extends to low water, whilst the marine planning framework extends to high water. This overlap in planning regimes encourages integrated planning and decision-making, as does the coverage of the NRP across the terrestrial and marine area.

Area Statements must facilitate the implementation of the NRP in the local context. For the marine area, a single marine area statement can support implementation of SMNR through the marine planning process, with a focus on developing an appropriate evidence base to embed SMNR and support decision-making under the plan.

Six terrestrial Area Statements share a coastal boundary with the marine Area Statement. This offers an additional mechanism for engaging with stakeholders on more local coastal and marine issues. Through working collaboratively to develop a suite of Area Statements, NRW can avoid duplication of effort and enable activity at the appropriate scale/ operational location to address issues.

Planning decisions on land are driven by Local Development Plans informed by the NDF/PPW. One role for terrestrial Area Statements is to provide additional

information to inform the development of local planning and decision-making. At sea, where the WNMP guides all decision-making, the development of a marine area statement is an important opportunity to provide further evidence to support implementation of marine plan policies through regulatory processes that govern decision-making for the marine area.

Annex 4: NRW Marine Advice Principles

The aim of the principles is to provide clarity and consistency in our approach to marine advice, and support implementation of WNMP policies. The principles reflect and consolidate the good work we already do, alongside sign-posting things we want and need to do differently to deliver new ways of working. They are intended to align with:

- any existing principles within NRW (e.g. SMNR principles, strategic planning principles and the refreshed regulatory principles);
- our specific duties and powers;
- our vision purpose and values; and
- our well-being objectives.

It is not so much the principles that need to be marine specific, it's how they are applied in the marine context that we need to gain a common understanding of, and provide the necessary guidance, processes and tools for, under the Marine Advice Framework. It is important, therefore, to emphasise that the principles are not an end in themselves but rather the first step in achieving the objectives of the Marine Advice Framework.

The principles are set out below and include one overarching and five specific principles.

Overarching principle:

We aim to provide marine that will **positively influence** policy, planning, development, and decision making; to ensure that the marine environment and natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and for the future.

The 5 principles below are intended to set how we go about formulating advice that has a “positive influence”.

Our marine advice will be:

1. ...proactive and targeted on enabling consideration of key environmental issues and opportunities at an early stage
2. ...clear, concise and mindful of the intended audience
3. ...constructive, timely and consistent
4. ...based on sound science and the best available evidence
5. ...proportionate to the risk of a plan, development or activity

There are a variety of tasks that are now being planned to support practical application of the principles, including, for example: advice and guidance, staff training, decision tools, standard positions and standard responses.

Annex 5: Marine protected areas in Wales

